# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | |
|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 12 MEDI 2018**<br>**am 2.00 o'r gloch** | **WEDNESDAY, 12 SEPTEMBER 2018**<br>**at 2.00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**<br>**LLANGEFRNI** | **COUNCIL CHAMBER**<br>**COUNCIL OFFICES**<br>**LLANGEFNI** |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke**<br>**01248 752514** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)
Mr. John Robert Jones

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr. Keith Roberts
Mr. Iorwerth Roberts

## R H A G L E N

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau neu Swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 10)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018 gan gynnwys materion yn codi.

**3** **MATERION YN YMWNEUD AG AELODAU** (Tudalennau 11 - 14)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn darparu diweddariad ar amryw o faterion yn ymwneud ag Aelodau.

**4** **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 15 - 20)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar hyfforddiant Aelodau.

**5** **ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU O GOFRESTRAU'R AELODAU** (Tudalennau 21 - 32)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau yn 2017/2018.

**6** **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Chynghorwyr Tref/Cymuned

**7** **PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 33 - 40)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau diweddaraf OGCC yng Nghymru.

**8** **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU**

Mae'n arfer i'r Swyddog Monitro baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar benderfyniadau diweddaraf PDC yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Mawrth 2018 a diwrnod cyhoeddi'r rhaglen hon, nid oedd unrhyw benderfyniadau wedi cael eu cyhoeddi. O'r herwydd, nid oes adroddiad ynghlwm.

**9** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 41 - 68)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mai 2018.

**10** **PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL** (Tudalennau 69 - 76)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar fabwysiadu'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018.

**11** **NODYN CYNGHORI AR Y FETHODOLEG AR GYFER ADOLYGU COFRESTRAU DIDDORDEB YR AELODAU ETHOLEDIG A'R AELODAU CYFETHOLEDIG** (Tudalennau 77 - 82)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) gyda Nodyn Cynghori drafft ar y Fethodoleg i'w ystyried gan y Pwyllgor Safonau.

**12** **RHODDION A LLETYGARWCH - NODYN BRIFFIO I AELODAU** (Tudalennau 83 - 90)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn amgáu nodyn briffio y bwriedir ei gylchredeg i Aelodau ar yr angen i gofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

**13** **HAWLIAU UNIGOL FEL AELODAU - NODYN BRIFFIO I AELODAU** (Tudalennau 91 - 94)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn amgáu nodyn briffio y bwriedir ei gylchredeg i Aelodau yn rhoi arweiniad i Aelodau pan mae'n rhaid iddynt gysylltu gyda'r Cyngor mewn capasiti preifat.

**14** **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 95 - 110)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y Fforwm Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2018.

**15** **CAIS(CEISIADAU) AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 111 - 166)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn manylu ar y ceisiadau am Ganiatâd Arbennig a ystyriwyd gan Banel o'r Pwyllgor Safonau ers ei gyfarfod diwethaf.

**16** **GWEFANNAU'R CYNGHORAU TREF A CHYMUNED A CHYHOEDDI'R GOFRESTR O DDIDDORDEBAU'R AELODAU** (Tudalennau 167 - 176)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

**17** **MABWYSIADU PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL GAN Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 177 - 184)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

**18** **HYFFORDDIANT AR GYFER CLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 185 - 198)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

**19** **ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEB Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 199 - 208)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y trefniadau ar gyfer yr adolygiad a gynhelir gan y Pwyllgor Safonau yn 2018/2019.

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-gadeirydd) |
| | Mrs Denise Harris Edwards<br>Mr John R Jones<br>Mrs Dilys Shaw |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Cynghorydd Iorwerth Roberts<br>Cynghorydd Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (ar gyfer Eitem 7 a 8)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cafodd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017 eu cadarnhau fel rhai cywir.

**Materion yn codi o gofnodion 8 Mawrth 2017:-**

**Eitem 6 – Diweddariad ar fabwysiadu'r Cod Ymddygiad Statudol Diwygiedig.**

Nodwyd bod y Swyddog Monitro wedi ysgrifennu at Gynghorau Cymuned Llangristiolus a Bodorgan ddwywaith yn gofyn iddynt anfon copi o'r cofnodion yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad. Derbyniwyd cadarnhad gan y ddau gyngor cymuned eu bod wedi mabwysiadu'r Cod ond nid ydynt wedi anfon copïau o'r cofnodion y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt.

**Gweithred:**

- **Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at Gadeiryddion Cynghorau Cymuned Llangristiolus a Bodorgan er mwyn eu hatgoffa o gais y Pwyllgor.**
- **Aelodau Etholedig y Cyngor Sir sy'n gynrychiolwyr ar y ddau gyngor cymuned i godi mater y cofnodion perthnasol yn eu cyfarfodydd nesaf.**

**Eitem 8 – Diweddariad ar Gofrestr Buddiannau Cynghorau Tref / Cymuned.**

Nodwyd Bod y Swyddog Monitro yn y gorffennol wedi ysgrifennu at yr holl gynghorau tref/cymuned er mwyn gweld pa gynghorau oedd yn cydymffurfio â'r angen i gyhoeddi eu Cofrestri Buddiannau ar-lein.

**Gweithred:**

**Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at y cynghorau tref/cymuned perthnasol eto er mwyn gweld a oes unrhyw Gynghorau eraill bellach yn cydymffurfio â chyhoeddi eu Cofrestri ar-lein.**

**Eitem 9 – Cynghorau Tref/Cymuned – Gwefannau**

Adroddodd y Swyddog Monitro ei bod wedi derbyn ymateb gan Un Llais Cymru ac fe rannodd yr ymateb hwnnw â'r Pwyllgor. Nodwyd nad oedd Un Llais Cymru yn bwriadu darparu cymorth pellach o ran sefydlu gwefannau.

**Gweithred: Dim**

**Materion yn codi o gofnodion 13 Medi 2017**

**Eitem 11 – Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau – Swydd Wag**

Adroddodd yr Is-gadeirydd fod y broses o benodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau, ac aelod annibynnol i'r Panel Dethol, wedi bod yn anodd a'i fod wedi codi'r mater yn Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

Awgrymwyd y dylid mabwysiadu opsiwn i rannu aelod annibynnol o'r Panel Dethol â Chynghorau Gwynedd a Chonwy yn y dyfodol os bydd angen.

**Gweithred: Dim**

**3. CADARNHAD O BENODIAD AELODAU NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU – 12 RHAGFYR 2017**

Cyflwynwyd – diweddariad ar benodiad dau gynghorydd cymuned ac un aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Cadarnhawyd y penodiadau gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017.

**PENDERFYNIAD Y CYNGOR FEL A GANLYN:-**

- **Cadarnhau enwebiadau ar y cyd y cynghorau cymuned drwy benodi'r cynghorwyr cymunedol canlynol fel aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Safonau a hynny ar unwaith:-**

  - **Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran**
  - **Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Bae Trearddur**

  **Bydd penodiadau'r cynghorwyr cymuned yn parhau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu tan na fydd y rhai a benodwyd bellach yn aelodau cyngor cymuned, pa bynnag un ddaw gyntaf.**

- **Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-**

  - **Penodi Mr John Robert Jones fel aelod annibynnol cyfetholedig ar y Pwyllgor Safonau a hynny ar unwaith.**

  - **Bydd tymor aelodau annibynnol yn y rôl yn dod i ben ar 11 Rhagfyr 2025.**

  - **Petai swydd wag bellach yn codi ar gyfer aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau yn ystod y 12 mis nesaf, y dylid penodi Ms Sarah Laing Gibbens i'r rôl hon heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn penodi.**

**Gweithred: Dim**

## 4. CWYNION YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref/Cymuned.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod un cwyn wedi'i derbyn yn erbyn Cynghorydd Sir gan aelod o'r cyhoedd a bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'r mater. Cafodd copi wedi'i olygu o'r gŵyn ei anfon ymlaen at aelodau'r Pwyllgor ar wahân ar 28 Chwefror 2018. Nid oedd unrhyw gwynion wedi eu derbyn yn erbyn cynghorydd tref/cymuned ar gyfer yr un cyfnod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

## 5. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn crynhoi gwybodaeth a gyhoeddwyd yn Llyfrau Achosion chwarterol Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Roedd y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau bod Cynghorwyr wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithred:**

**Y Swyddog Monitro i anfon copi o'r Llyfrau Achosion Cod Ymddygiad at holl Aelodau'r Cyngor Sir a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned.**

## 6. PENDERFYNIADAU GWASANAETH DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13 Medi 2017. Roedd y ddau achos yr adroddwyd arnynt yn ymwneud â Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithred:**

**Y Swyddog Monitro i anfon copi o benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru ymlaen at holl Aelodau'r Cyngor Sir a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned.**

## 7. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar gynnydd mewn perthynas â'r cyfleoedd datblygu a gynigwyd i Aelodau ers yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2017.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y rhaglen bresennol, sy'n ddogfen ddatblygol a roddwyd at ei gilydd gyda mewnbwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Uwch Swyddogion ac Arweinwyr Grwpiau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yr Awdurdod hwn.

Nodwyd bod 11 sesiwn hyfforddiant ffurfiol ychwanegol wedi eu cynnal rhwng Medi 2017 a 31 Mawrth 2018 – roedd 5 ar gyfer Aelodau'r ddau Bwyllgor Sgriwtini; 1 ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a darparwyd hyfforddiant trwyddedu i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gwahoddwyd y 30 Aelod i weddill y sesiynau hyfforddiant. Lle yr oedd hynny'n berthnasol, gwahoddwyd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau i sesiynau hyfforddiant penodol hefyd.

Nodwyd y gofynnir i Aelodau lenwi taflenni gwerthuso a darparu adborth ar ôl iddynt fynychu'r sesiynau hyfforddiant er mwyn cofnodi eu cynnydd. Gall

Aelodau gael mynediad i'r wybodaeth hon er mwyn gallu cwblhau eu Hadroddiadau Blynyddol.

Mae Aelodau hefyd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhaglenni E-ddysgu. Nodwyd fod y Swyddog E-ddysgu wedi darparu nifer o sesiynau hyfforddiant i Aelodau er mwyn gallu bodloni eu hanghenion Hyfforddiant.

Mewn perthynas ag Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau (PDR), adroddodd y Rheolwr fod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi nodi y dylid cwblhau PDR erbyn diwedd Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd o ran y Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau ar gyfer 2017/18.**

**Gweithred: Dim**

## 8. SIARTR DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Siartr Cymru CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, sydd â'r nod o ddarparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio lleol, hunanasesu, gweithredu ac adolygu a rhannu arferion arloesol.

Rhoddwyd y dyfarniad yn 2014 am gyfnod o 3 blynedd ac fe gynigir bod y Cyngor rŵan yn ceisio ail asesiad. Mae hyn yn cynnwys yr angen i baratoi hunanasesiad yn erbyn meini prawf penodol a baratoir gan CLlLC gyda thystiolaeth gefnogol yn erbyn penawdau amrywiol.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol bod tystiolaeth wedi'i chasglu ar yr uchod ac y bydd yr hunanasesiad yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Ebrill 2018.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod y Cyngor bellach yn ceisio ail asesiad o fewn Siartr Cymru CLlLC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.**

**Gweithred: Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i anfon copi o'r cyflwyniad terfynol at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.**

## 9. PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro yn dilyn adolygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) o'i brawf ar gyfer ymchwilio i gwynion, ac annog awdurdodau lleol yng Nghymru i ddelio â chwynion camymddygiad lefel isel rhwng Aelodau drwy Brotocol Datrysiad Lleol anffurfiol.

Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2017, roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am yr adroddiad hwn er mwyn adnabod pwerau cyfreithiol y Pwyllgor mewn perthynas â'r Protocol, ac i dderbyn unrhyw gynigion/diwygiadau i'r trefniadau presennol.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi anfon copi o'r drafft (Atodiad 2) i'r Arweinyddion Grwpiau ar 1 Chwefror 2018 yn dilyn cyflwyniad a roddodd yn eu cyfarfod grŵp ar 25 Ionawr 2018. Gofynnwyd i Arweinyddion Grwpiau gylchredeg copi i'w Haelodau ar gyfer sylwadau erbyn diwedd Chwefror 2018. Nid oedd unrhyw ymatebion wedi eu derbyn erbyn y dyddiad penodol.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod yr Arweinwyr Grwpiau yn cefnogi mabwysiadu'r protocol lefel is er mwyn annog Aelodau i ddatrys anghydfodau lleol yn anffurfiol gydag Aelod o'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn ceisio gosod cosbau ar Aelodau etholedig sydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Nodwyd, heb atgyfeiriad at yr Ombwdsmon, nad oes gan y Pwyllgor Safonau unrhyw bwerau cyfreithiol i allu cosbi Aelodau etholedig. Cynigiwyd bod y Pwyllgor Safonau yn cadw'r elfen is o gyfryngu yn unig dan y Protocol drafft newydd a bod Aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn cael hyfforddiant i bwrpas cyfryngu. Cytunodd y Pwyllgor i hyn.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod y cynghorau tref a chymuned wedi mabwysiadu eu Protocol Datrysiad Lleol eu hunain. Nododd ei bod wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru er mwyn gweld pa gynghorau tref a chymuned sydd wedi mabwysiadu'r Protocol, ond nad yw wedi derbyn ymateb.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Pwyllgor Safonau fabwysiadu'r Protocol drafft (yn Atodiad 2) fel ei Brotocol Datrysiad Lleol.**

**Gweithred:**

- **Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gylchredeg copi o'r Protocol Datrysiad, a ddiwygiwyd ymhellach, ymlaen at yr Arweinyddion Grwpiau.**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno'r Protocol drafft i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yng nghyfarfod 15 Mai 2018**
- **Y Swyddog Monitro i drefnu hyfforddiant cyfryngu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r Protocol.**
- **Y swyddog Monitro i sefydlu pa gynghorau tref sydd wedi mabwysiadu Protocol Un Llais Cymru.**

## 10. ADRODDIAD AR UNRHYW GANIATÂD ARBENNIG A DDERBYNIWYD

Adroddodd y Cadeirydd, yn dilyn cyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig ar 14 Mawrth 2018, y rhoddwyd caniatâd arbennig i Gyngor Cymuned Llanbadrig ar gyfer cyfnod y tymor presennol.

Rhoddodd y Swyddog Monitro grynodeb o'r ffeithiau a'r sail gyfreithiol dros roi'r caniatâd arbennig.

**PENDERFYNWYD nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd, ar ba sail a'r amgylchiadau perthnasol.**

**Gweithred:**

- **Bod Aelodau'r Panel yn unig, (Michael Wilson, Dilys Shaw ac Iorwerth Roberts) yn cadarnhau'r cofnodion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau).**
- **Y Swyddog Monitro i gylchredeg copi o'r caniatâd arbennig i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.**

**11. CANIATÂD CYFFREDINOL AR GYFER HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR MEWN PERTHYNAS AG UNRHYW FFIOEDD ADDYSGOL POSIBL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro ar gael cymeradwyo caniatâd arbennig cyffredinol ar gyfer tymor y Cyngor.

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor Sir ar gyfer Aelodau etholedig, mae unrhyw aelod sydd â diddordeb personol neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn eitem o fusnes yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd modd i aelod oresgyn y broblem a achosir gan y diddordeb drwy gael caniatâd arbennig gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y Cyngor yn 2015 wedi ystyried a ddylid codi ai peidio am gost y gofal a ddarparwyd mewn clybiau brecwast yn yr ysgolion cynradd. Roedd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gost o ddarparu'r bwyd i'r plant ond nid oedd y gofal yr oedd ei angen ar y plant er mwyn derbyn y brecwast yn cael ei ariannu. Roedd y Cyngor llawn, yn eu penderfyniad ar y gyllideb, i fod i benderfynu a ddylent godi am ofal brecwast ai peidio. Achosodd y drafodaeth hon ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu ar gyfer yr aelodau hynny oedd â chysylltiad agos â phlant/teuluoedd a fyddai'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad. Felly, cyflwynwyd cais am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau, a gafodd ei gymeradwyo, ac a ddaeth i ben ym Mai 2017. Mae'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Dysgu wedi gofyn i'r Pwyllgor Safonau ymestyn y caniatâd arbennig i weddill tymor y Cyngor hwn.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno'n unfrydol i'r canlynol:-**

- **Petai'r angen yn codi, bod holl Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn, y mae'r amgylchiadau'n berthnasol iddynt, yn derbyn caniatâd arbennig er mwyn eu galluogi i siarad a phleidleisio, lle mae ganddynt gysylltiad personol agos (teulu neu ffrindiau) sy'n defnyddio'r Clybiau Brecwast mewn Ysgolion Cynradd, neu wasanaeth cyfwerth/tebyg/cysylltiedig nad yw eithriadau o dan y Cod eisoes yn berthnasol iddynta lle mae angen trafod yr angen i godi tâl.**
- **Rhoddir y caniatâd arbennig yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Caniatâd Arbennig)(Cymru) 2001, fel y'i diwygiwyd, 2 (c)(d)(e)(f).**
- **Gall unrhyw Aelod sy'n ymarfer yr hawl hon siarad a phleidleisio ar faterion o'r fath.**
- **Bydd y caniatâd arbennig yn ymestyn i unrhyw ystyriaeth o'r mater hwn (neu fater cyfwerth/tebyg/cysylltiol/cysylltiedig â gwasanaethau ysgol) yn y dyfodol yn achos Aelodau y cychwynnodd eu tymor ym Mai 2017,**

**neu’n hwyrach yn achos isetholiad, o Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer gweddill tymor y Cyngor h.y. tan mai 2022.**

- **Bydd Aelodau yn parhau i fod â diddordeb personol o dan y Cod y bydd angen iddynt ei ddatgan boed hynny ar ddechrau’r cyfarfod neu ar ddechrau’r eitem berthnasol. Mae angen i ffurflenni datgan diddordeb gadarnhau eu bod yn dibynnu ar ganiatâd arbennig a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 14 Mawrth 2018.**

**Gweithred: Copi o’r cofnodi hwn i’r Prif Weithredwr a’r Pennaeth Dysgu.**

**12. FFORWM PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gadeirydd y Fforwm Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2017. Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r cefndir a phwrpas y Fforwm i aelodau newydd y Pwyllgor.

Adroddodd y Cadeirydd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Fforwm ym mis Tachwedd er mwyn trafod unrhyw faterion a godwyd gan aelodau’r Pwyllgorau Safonau. Roedd materion a drafodwyd yn cynnwys gofal a llesiant Cynghorwyr.

Nodwyd ymhellach y cynhelir Cynhadledd Safonau Cymru yn Aberystwyth ar 14 Medi.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi’r adroddiad llafar.**
- **Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm Pwyllgor Safonau ym mis Mai, ar ddyddiad ac amser i’w drefnu.**

**13. ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU O'R COFRESTRI**

Cyflwynwyd – yr Adolygiad Blynyddol o'r Cofrestri canlynol:-

- Cofrestr Sefydlog – Cyn-gofrestru Diddordebau;
- Datganiadau mewn cyfarfodydd;
- Anrhegion a Lletygarwch.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y dasg wedi cynnwys adolygu pob un o’r 30 Aelod, tair cofrestr, ynghyd â chofrestri aelodau cyfetholedig o Bwyllgorau’r Cyngor. Ar 14 Chwefror 2018, cafodd pedwar aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau gyfarfod er mwyn trafod eu canfyddiadau. Roedd aelod annibynnol newydd y Pwyllgor hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.

O ddadansoddi’r wybodaeth a dderbyniwyd, mynegwyd pryderon am faterion yn ymwneud â rhai cynghorwyr. Mae aelodau’r Pwyllgor wedi dechrau ysgrifennu atynt yn unigol yn amlinellu’r materion. Mae rhai Aelodau etholedig eisoes wedi ymateb a bydd gofyn i’r Pwyllgor adolygu’r ymatebion unwaith y bydd y dyddiadau cau wedi mynd heibio.

Trafododd y Pwyllgor ganfyddiadau cyffredinol yr aelodau annibynnol a gofynnwyd am iddynt gael eu hanfon ymlaen at yr Arweinyddion Grwpiau a'r Aelodau Etholedig.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn argymell:-**

- **Bod aelodau annibynnol y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr unigolion perthnasol.**
- **Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ysgrifennu at yr Arweinwyr Grwpiau er mwyn cadarnhau'r canfyddiadau cyffredinol, yn cynnwys cyflwyniad i Arweinyddion Grwpiau, a bod copi wedyn yn cael ei anfon at yr holl Aelodau.**
- **Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod â'r pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr opsiwn o ehangu'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am Aelodau etholedig a gwneud y system yn haws i'w defnyddio.**
- **Bod trefniadau'n cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro i'r Cynghorwyr Iorwerth Roberts a Keith Roberts gynnal adolygiadau o'r pum aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.**
- **Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i adrodd yn ôl i'r UDA mewn perthynas â blaenoriaethu Cyrff Allanol a mabwysiadu dull adborth mwy ffurfiol er mwyn gallu adrodd yn ôl i'r Cyngor.**
- **Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gynnal sesiwn friffio i Aelodau Etholedig am wahanol opsiynau sydd ar gael o ran cyhoeddi data pellach i'r cyhoedd am weithgareddau aelodau etholedig.**

**Gweithred: Gweler y datrysiad uchod.**

## 14. HYFFORDDIANT, DATBLYGIAD A GWERTHUSIAD O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Monitro ar hyfforddiant, datblygiad a'r broses o werthuso aelodau'r Pwyllgor Safonau. Does dim gofyniad ffurfiol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau gymryd rhan yn y PDR.

Adroddodd y Swyddog Monitro, yn dilyn cyfarfod diweddar â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, y derbyniwyd cadarnhad fod y gwaith papur i Aelodau etholedig gynnal eu hadolygiadau â'u Harweinwyr Grwpiau wedi'i gylchredeg a bod y Cynlluniau Anghenion Hyfforddiant i'w hanfon ymlaen i'r adran Adnoddau Dynol.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol y gallai gwerthusiadau hefyd gael eu cynnal ar gyfer Aelodau o'r Pwyllgor Safonau rhwng rŵan ac Ebrill 2018 (Byddai'r Cynghorwyr Dafydd R Thomas a Trefor L Hughes wedi eu heithrio gan y byddant eisoes wedi eu gwerthuso). Mae'r broses werthuso yn un anffurfiol a bydd yn adnabod unrhyw anghenion sydd gan Aelodau o ran eu perfformiad a hyfforddiant ac anghenion datblygu.

Holodd y Swyddog Monitro a hoffai'r Pwyllgor wneud unrhyw newidiadau i'r ffurflenni presennol er mwyn adnabod meysydd allweddol a gofynion penodol ar gyfer unigolion. Ymatebodd y Pwyllgor eu bod yn hapus i barhau i ddefnyddio'r

un dogfennau/prosesau ag Aelodau etholedig ond nodwyd yr angen i rai unigolion dderbyn hyfforddiant pellach mewn meysydd penodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Safonau wedi ystyried a chasglu na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys a fformat presennol yr hyfforddiant datblygu a'r broses werthuso ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod gwerthusiadau aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal rhwng rŵan a diwedd Ebrill 2018 os yn bosibl.**

**Gweithred: Gweler y datrysiad uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **12 Medi 2018** |
| **Teitl:** | **Materion Aelodau Etholedig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd ar gynnydd hyd yma** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn ydi diweddaru'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

1.1 Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol am y cyfnod 2017 - 18.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

Ym mis Mawrth eleni fe gytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar amserlen ar gyfer hyn sef cyhoeddi adroddiadau erbyn y 30 o Fehefin 2018. Mae modd gweld yr adroddiadau a baratowyd hyd yma ar y linc isod.

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cynghorwyr/adroddiad-blynyddol-gan-gynghorydd/

1.2 Siarter datblygu a chefnogi Aelodau

Yn ogystal, adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar y bwriad i baratoi ail asesiad ar gyfer anghenion Siarter Datblygu a chefnogi Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yn 2014 dyfarnwyd y Siarter hon i'r Cyngor a'i fwriad ydi darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cynllunio lleol, hunan asesiad, gweithredu ac adolygu ynghyd â rhannu arfer da. Fe ddyfarnwyd y Siarter am gyfnod o 3 blynedd a'r bwriad gwreiddiol oedd ail gyflwyno cais erbyn Ebrill 2018. Fodd bynnag adolygwyd yr amserlen hon er mwyn caniatau i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol a hefyd adolygiadau datblygu personol. Adroddwyd ar gynnydd mewn perthynas a'r ddau faes hwn i Arweinyddion Grwpiau. (Mae adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn yn delio gyda'r rhaglen hyfforddiant Aelodau ar gyfer 2018/19. Bwriedir yn awr gyflwyno cais am y Siarter yn ystod chwarter 3, 2018/19

1.3 Gwiriad GDG

Mae'n ofynnol dan bolisi Datgelu a Gwahardd y Cyngor bod gwiriad uwch yn cael ei wneud ar gyfer Aelodau gan gynnwys Aelodau cyfetholedig sydd ar wahanol bwyllgorau a phanelau perthnasol. Gweithredwyd ar hyn gyda chymorth y Pennaeth Dysgu a bydd hyn yn cael ei adolygu yn gyson yn y dyfodol.

1.4 Gwybodaeth Aelodau ar wefan y Cyngor

Darparwyd gwybodaeth i Aelodau mewn sesiwn briffio ar hyn a'r defnydd o system reoli gwybodaeth pwyllgorau Mod.Gov i gynnwys rhagor o fanylion ar dudalennau Cynghorwyr ar bresenoldeb mewn pwyllgorau a hefyd hyfforddiant ayyb.

Mae Aelodau wedi derbyn cefnogaeth 1-1 ar y drefn o gynnwys manylion hyfforddiant ar gyfer 2018/19 a bydd staff Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i ddarparu cefnogaeth i Aelodau. Bellach mae gwybodaeth ar wefan y Cyngor ar bresenoldeb mewn pwyllgorau a hefyd hyfforddiant.

Yn ddiweddar fe gyhoeddwyd canllawiau gan CLLlC ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cylchredeg y wybodaeth i'r holl Aelodau ac mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn ddull effeithiol i Gynghorwyr rannu gwybodaeth gyda etholwyr. Mae cyfle i Aelodau gynnwys manylion Facebook a Twitter ar y wefan.

1.5 Cyrff Allanol

Mae Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor ar wahanol bartneriaethau strategol a rhai cyrff sy'n fwy lleol, ac mae'r Cyngor yn adolygu y rhestr yn flynyddol. Yn ei gyfarfod ar yr 19fed o Fehefin, mabwysiadwyd fframwaith monitro partneriaethau ar sail rhaglen dreigl gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at atebolrwydd Aelodau. Yn y dyfodol bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn cael ei llywio o gwmpas rhai partneriaethau allweddol a chyfle i'r Pwyllgor holi Aelodau sy'n eistedd ar y partneriaethau hyn. Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y linc isod:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=481&MId=3328&Ver=4&LLL=1 - Eitem 6

O ran cyrff allanol 'lleol' mae cyfle i Aelodau ddarparu gwybodaeth mewn adroddiadau blynyddol er mwyn egluro i'r cyhoedd yr hyn a wneir a rolau. Rwy'n bwriadu adolygu fformat y wybodaeth mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol er mwyn i Aelodau grynhoi eu gwaith ar gyrff allanol yn hytrach na manylu ar nifer y cyfarfodydd a fynychwyd.

## 2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**23 Awst, 2018**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 12 MEDI 2018 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGU AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | RHOI DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

**CEFNDIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar gynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau Etholedig ers yr adroddiad gyflwynwyd ar y 14eg o Fawrth 2018.

Cyflwynwyd cynllun newydd ar gyfer 2018/19 ac a gafodd ei mabwysiadu gan y cyngor llawn ar y 15fed o Fai 2018. Cafodd y cynllun ei llunio gydag mewnbwn gan yr Uwch Swyddogion ac Arweinyddion Grwpiau er mwyn ymateb i anghenion yr Awdurdod hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol yma.

**CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU**

Fel cynllun sy'n esblygu mae'r cynllun Datblygu eisoes wedi ei ddiwygio i adlewyrchu yr anghenion hyfforddiant sydd wedi ei gynnig ers fy adroddiad diwethaf, gweler atodiad 1.

Rhwng 1af o Ebrill 2018 a'r 14eg o Fedi 2108, mae 10 sesiwn datblygu ffurfiol yn/wedi ei cynnig. Mae'r sesiynau gynigir yn cynnwys sesiynau Cyllid/Diogelu/Iechyd a Diogelwch a Craffu.

Lle'n addas, mae Aelodau Lleyg ac hefyd Aelodau o'r Pwyllgor Safonau'n cael gwahoddiad i sesiynau hyfforddiant penodol.

**COSTAU**

Mae'r hyfforddiant sydd wedi ei gyflwyno wedi bod yn gyfuniad o rai sydd wedi ei harwain gan swyddogion yn ogystal a darparwyr allanol, gyda chyfraniad sylweddol mewn buddsoddiad yn y rhaglen Hyfforddiant Craffu.

Yn ôl yr arfer, mae presenoldeb ar sesiynau datblygu'n hanfodol i sicrhau gwerth am arian.

**E-DDYSGU**

Mae peth ymdrech wedi ei wneud i annog Aelodau Etholedig i ymgyfarwyddo ei hunain gyda'r ystod o raglenni E-Ddysgu sydd ar gael iddynt.

Er mwyn cynorthwyo Aelodau Etholedig gyda hyn, mae'r Swyddog E-Ddysgu wedi cyflwyno nifer o sesiynau i Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu a Safonau, er mwyn rhoi gwybodaeth, sgiliau ac hyder i unigolion ddefnyddio'r rhaglenni.

Ers y 1af o Ebrill 2018 mae Aelodau Etholedig wedi bod i mewn i'r modiwlau isod:

Y Cynghorydd Ward Effeithiol (x8)
Sgiliau Siarad yn Gyhoeddus (x5)
Cyflwyniad i Graffu (x5)
Penderfyniadau ar gyfer Cenhedlaethau'r Dyfodol (x2)
Rhiantu Corfforaethol (x2)

**GWERTHUSO**

Mae gwerthuso hyfforddiant yn cael ei annog o hyd er mwyn adnabod os ydi'r hyfforddiant yn cyrraedd anghenion Aelodau ac er mwyn adnabod unrhyw anghenion ychwanegol.

**ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) AR GYFER AELODAU**

Mae trefniadau ar gyfer cwblhau ADP ar gyfer y flwyddyn ariannol yma wedi ei cyd-lynu gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r anghenion hyfforddiant sydd wedi ei adnabod yn rhai o natur generic.

**CRYNODEB**

Bydd y cynllun datblygu'n parhau i gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cynigion a gynigir i Aelodau Etholedig yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd.

Bydd y Rheolwr Datblygu AD yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gyd weithio gyda Awdurdodau arall yn y Gogledd i sicrhau fod unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei gomisiynu yn gost effeithiol.

## ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaed o ran y Rhaglen Datblygu Aelodau.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu AD**
**Medi 2018**

**RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19**

**(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)**

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Pryd |
|---|---|---|---|
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Basson | **05/06/2018** |
| Materion Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **gohirwyd** |
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig | Fôn Roberts – Pennaeth Gwasanaeth Plant | **gohirwyd** |
| Hyfforddiant Sgriwtini | Pob Aelod Etholedig | David McGrath | **13 & 14 Medi 2018** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **26/7/2018** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)". | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e-ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Fodern – recordio hyfforddiant | Pob Aelod Etholedig | Swyddog Mewnol | **Mai 2018 (cynhaliwyd sesiynau briffio)**<br>**Medi 2018** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/E-Ddysgu | **13 & 14 Medi 2018** |
| Rhaglen Arweinyddiaeth CLlIC | Enwebir Aelod Etholedig | Gweithdai Rhanbarthol | **Tachwedd 2018** |
| **Trwyddedu** - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| **Iechyd a Diogelwch –** IOSHH Arwain yn Ddiogel | Pob Aelod Etholedig (M) | Catrin Love | **12/7/2018** |
| **Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein** | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **12/7/2018** |
| **Cynllunio**<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Swyddogion Mewnol | **Dyddiad i'w gadarnhau** |

**MODIWLAU E-DDYSGU AR GAEL**

- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol
- Ysgrifennu Effeithiol
- Rheoli Eich Hun a'ch Amser
- Deallusrwydd Emosiynol
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Atal
- Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ymwybyddiaeth Straen
- Croeso Cymraeg Gwaith
- Moesau a Safonau
- Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol

- Cadeirio Cyfarfodydd
- Sgiliau Siarad Cyhoeddus
- Cyflwyniad i Graffu
- Y Cynghorydd Ward Effeithiol
- Rhiantu Corfforaethol

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

**Noder: bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad Blynyddol o Gofrestrau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori aelodau ynglŷn â'r canfyddiadau cyffredinol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## A ADOLYGIAD O GOFRESTRAU AELODAU ETHOLEDIG

### 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2017, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o dair cofrestr o ddiddordebau aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig.

1.2 Cynhaliwyd yr adolygiad o aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor (heb gynnwys aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau – gweler paragraff 8 yr adroddiad hwn) rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Chwefror 2018.

1.3 Yn ogystal, penderfynwyd yn y cyfarfod ar 13.09.2017, yn dilyn cynnal trafodaeth anffurfiol gan y Pwyllgor Safonau ynglŷn â chanfyddiadau pob aelod, y byddai llythyr yn cael ei anfon at bob aelod i gadarnhau canlyniad yr adolygiad. Penderfynwyd hefyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfod rhydd nesaf yr Arweinyddion Grwpiau yn dilyn yr adolygiad er mwyn trafod y canfyddiadau.

1.4 Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod Arweinyddion Grwpiau ar 26 Ebrill 2018. Yn ogystal, mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Briffio Aelodau ar 3 Mai 2018 pan drafodwyd materion yn codi o'r adolygiad.

1.5 Rhannwyd llythyr cynghori cyffredinol i bob aelod etholedig a chyfetholedig y Cyngor ar 3 Mai 2018. Mae copi o'r e-bost yn **Atodiad 1**.

1.6 Yn ogystal, anfonwyd llythyr personol at rai Cynghorwyr, lle barnwyd bod hynny'n angenrheidiol, er mwyn cadarnhau camgymeriadau. Ni ddosbarthwyd ac ni rannwyd yr ohebiaeth hon gydag unrhyw un arall.

## 2. Canfyddiadau cyffredinol

2.1 Bernir bod yr adolygiad yn ymarferiad buddiol. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau wedi cael ei blesio gan y canfyddiadau oherwydd cafodd nifer o arferion da eu nodi. Yn ogystal, nodwyd rhai meysydd o bryder, ac, fel yr esboniwyd mewn e-bost at yr aelodau (**Atodiad 1**), mae angen rhoi sylw i'r materion hynny.

2.2 O ganlyniad i'r adolygiad, gofynnwyd i rai newidiadau penodol gael eu gwneud i'r wefan, yn arbennig ar dudalennau cartref Cynghorwyr. Nod y Pwyllgor Safonau oedd sicrhau y byddai'n haws i aelodau'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus.

2.3 Mae'r newidiadau arfaethedig i'r wefan yn cynnwys y canlynol:-

- Tabiau newydd ar gyfer "Presenoldeb mewn Cyfarfodydd" a "Hyfforddiant" o dan 'Mwy o wybodaeth am y Cynghorydd yma' ar dudalen gartref pob Cynghorydd;

- Tabiau newydd ar gyfer "Adroddiad Blynyddol" a "Cynghorwyr – lwfansau" o dan 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalen cartref pob Cynghorydd;

- Gellir ychwanegu manylion 'Cymorthfeydd' ar gyfer apwyntiad rheolaidd; a

- Dolenni i gyfrifon Facebook/Twitter y Cynghorydd.

2.4 Trafodwyd y newidiadau uchod mewn Sesiwn Briffio gydag Aelodau ar 3 Mai 2018. Yn y Sesiwn Briffio honno penderfynwyd y byddai sampl o broffiliau Aelodau'n cael eu newid yn unol â'r argymhelliad er mwyn llunio barn ynglŷn ag a yw'r newidiadau'n gweithio ai peidio.

2.5 Mae cydweithwyr yn y gwasanaeth TGCh wedi darparu'r wybodaeth a ganlyn ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r materion TGCh hyn:-

- **"Tabiau newydd ar gyfer "Presenoldeb mewn Cyfarfodydd" a "Hyfforddiant" o dan 'Mwy o wybodaeth am y Cynghorydd yma' ar dudalen gartref pob Cynghorydd;**

  Mae'r ddau dab ar gael ar dudalen gartref pob Cynghorydd erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae aelodau staff y Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi hyfforddiant i Gynghorwyr ynglŷn â sut i lenwi eu cofnod hyfforddiant.

  Mae'r system Modern.Gov yn creu manylion presenoldeb yn awtomatig ac erbyn hyn maent yn fyw ar wefan y cyngor mewn ymateb i gais gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'n bosib dewis rhesymau ychwanegol am absenoldeb o un o gyfarfodydd y cyngor e.e. Ymddiheuriadau oherwydd Dyletswyddau'r Cyngor. Mae angen edrych ar hyn ymhellach er mwyn sicrhau fod staff y Gwasanaethau Democrataidd yn meddu ar restr gywir o resymau posib a bod Cynghorwyr yn ymwybodol fod modd dewis rhesymau am absenoldebau. Bydd rhesymau am absenoldeb yn ymddangos yn y Cofnod Presenoldeb mewn Cyfarfodydd ac o dan fanylion Presenoldeb Cynghorwyr ar eu tudalen gartref.

- **Tabiau newydd ar gyfer "Adroddiad Blynyddol" a "Cynghorwyr – lwfansau" o dan 'Gwybodaeth Ychwanegol' ar dudalen gartref pob Cynghorydd;**

  Mae'r tabiau ar gael erbyn hyn ar dudalen gartref pob Cynghorydd ynghyd â dolen i dudalennau ar y wefan gorfforaethol. Mae'r adrannau Cynghorydd – Lwfansau ac Adroddiadau Blynyddol wedi cael eu diweddaru.

- **Gellir ychwanegu manylion 'Cymorthfeydd' er mwyn creu apwyntiad rheolaidd;**

  Gellir ychwanegu manylion cymorthfeydd rheolaidd yn Gymraeg a Saesneg. Dim ond gweinyddwr all ychwanegu'r manylion hyn ac nid y Cynghorydd.

- **Dolenni i gyfrifon Facebook/Twitter y Cynghorydd**

  Mae modd i Weinyddwr ychwanegu dolenni i gyfrifon Facebook / Twitter"

2.6 Yn ogystal â'r llythyr cyffredinol (**Atodiad 1**), derbyniodd rhai Cynghorwyr lythyr personol hefyd. Anfonwyd y llythyrau hyn yn unigol naill ai gan Michael Wilson, Islwyn Jones neu Dilys Shaw, fel aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, at gyfanswm o 9 aelod. Mae pob un heblaw un o'r Aelodau wedi cyflwyno ymatebion.

## B ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU

### 3. Cefndir

3.1 Fel ymarfer ar wahân, penderfynwyd y byddai aelodau Cynghorau Tref a Chymuned y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o ddiddordebau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau.

3.2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2018.

3.3 Dosbarthwyd llythyrau cynghori unigol i 5 aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau ar 12 Gorffennaf 2018. Roedd y cynnwys yn debyg ar gyfer 4 aelod.

3.4 Gofynnwyd i un aelod adolygu'r manylion yn ei Gofrestr Sefydlog. Mae'r aelod wedi ymateb ac wedi gweithredu ar y cyngor.

3.5 Mae'r canfyddiadau cyffredinol eraill yn cynnwys:

- Nid ymddengys fod y cofnod Hyfforddiant a gedwir yn ganolog gan y Cyngor yn nodi'r holl hyfforddiant a gwblhawyd gan aelodau. (Mae hyn yn wir ar gyfer yr holl aelodau, nid aelodau'r Pwyllgor Safonau'n unig.)

  Oni bai fod aelodau'n hysbysu AD eu bod wedi cwblhau modiwl/cwrs ni fyddant yn ymwybodol o hynny ac ni fydd y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar gofnod yr aelod.

  Petai newidiadau'n cael eu gwneud i'r system TGCh (fel y trafodir yn 2.3 uchod), byddai modd i aelodau'r Pwyllgor Safonau fewnbynnu eu cofnod hyfforddiant eu hunain er mwyn iddi ymddangos ar y wefan.

- Gofynnwyd i bob un o'r 5 aelod annibynnol ddarparu rhestr lawn o'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn diweddaru'r cofnod hwnnw. Mae un aelod wedi darparu'r wybodaeth hon. Mae dau aelod arall wedi ymateb i esbonio nad ydynt wedi cadw cofnod. Ni dderbyniwyd ymateb gan y ddau arall.

- Materion TGCh megis:

  - Datganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd -
    Nid yw enwau aelodau cyfetholedig yn ymddangos yn y ddewislen o enwau (enwau Cynghorwyr yn unig sydd ar y rhestr) ar gyfer y dasg hon sy'n ymddangos ar dudalen bywgraffiad pob Aelod.

  - Rhoddion a Lletygarwch-
    Nid oes tab ar gyfer 'Rhoddion a Lletygarwch' ar dudalennau bywgraffiad Aelodau Cyfetholedig (mae o ar gael ar gyfer Cynghorwyr).

  - Hyfforddiant-
    Nid oes tab ar gyfer 'Hyfforddiant' ar dudalennau bywgraffiad Aelodau Cyfetholedig (mae o ar gael ar gyfer Cynghorwyr).

  Codwyd y materion hyn gyda'r adain TGCh ar 3 Gorffennaf 2018.

  Mae cydweithwyr yn y gwasanaeth TGCh wedi darparu'r wybodaeth a ganlyn ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r materion TGCh hyn:-

  - **"Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd – nid yw enwau aelodau Cyfetholedig yn ymddangos yn y ddewislen o enwau (enwau Cynghorwyr yn unig sydd ar y rhestr) ar gyfer y dasg sy'n ymddangos ar dudalen bywgraffiad pob Aelod.**

    Nid oes modd ychwanegu enwau aelodau Cyfetholedig i'r ddewislen ar y dudalen *"Datgan diddordebau"*. Mae'r ddewislen wedi ei rhaglennu i ddangos enwau Cynghorwyr yn unig ac nid oes modd ei newid. Gellir galluogi'r ddolen *"Datganiadau mewn Cyfarfodydd"* ar eu tudalennau

proffil personol ond nid yw enwau aelodau Cyfetholedig yn cael eu cynnwys yn y chwiliad.

Gellir dod o hyd i ddatganiadau o ddiddordeb drwy ddefnyddio chwiliad ar sail dyddiadau ar y dudalen Datganiadau o ddiddordeb. Mae TGCh yn archwilio a oes modd ychwanegu testun ychwanegol i'r dudalen er mwyn esbonio i'r cyhoedd sut i chwilio am wybodaeth am aelodau Cyfetholedig.

- **Rhoddion a Lletygarwch -**
  **Nid oes tab ar gyfer 'Rhoddion a Lletygarwch' ar dudalennau bywgraffiad yr Aelodau Cyfetholedig (mae o ar gael ar gyfer Cynghorwyr).**

  Nid oes modd ychwanegu'r aelodau Cyfetholedig i'r ddewislen ar y dudalen "Rhoddion a Lletygarwch". Mae'r ddewislen wedi ei rhaglennu i ddangos enwau Cynghorwyr yn unig ac nid oes modd ei newid. Gellir galluogi'r ddolen "Rhoddion a Lletygarwch" ar eu tudalennau proffil personol ond nid yw eu henwau'n cael eu cynnwys yn y chwiliad.

  Gellir dod o hyd i Roddion a Lletygarwch drwy ddefnyddio chwiliad ar sail dyddiadau ar y dudalen Rhoddion a Lletygarwch. Mae TGCh yn archwilio a oes modd ychwanegu testun ychwanegol i'r dudalen er mwyn esbonio i'r cyhoedd sut i chwilio am y wybodaeth.

  Os oes angen yr opsiwn hwn yna bydd rhaid rhoi hyfforddiant ychwanegol i aelodau Cyfetholedig ynglŷn ag ychwanegu eu manylion i'r adran Rhoddion a Lletygarwch.

- **Hyfforddiant –**
  **Nid oes tab ar gyfer 'Hyfforddiant' ar dudalennau bywgraffiad yr Aelodau Cyfetholedig (mae o ar gael ar gyfer Cynghorwyr).**

  Nid oes modd ychwanegu'r aelodau Cyfetholedig i'r ddewislen ar y dudalen "Hyfforddiant". Mae'r ddewislen wedi ei rhaglennu i ddangos enwau Cynghorwyr yn unig ac nid oes modd ei newid. Gellir galluogi'r ddolen "Hyfforddiant" ar eu tudalennau proffil personol ond nid yw eu henwau'n cael eu cynnwys yn y chwiliad.

  Gellir dod o hyd i gofnodion hyfforddiant drwy ddefnyddio chwiliad ar sail dyddiad ar y dudalen Hyfforddiant. Mae TGCh yn archwilio a oes modd ychwanegu testun ychwanegol i'r dudalen er mwyn esbonio i'r cyhoedd sut i chwilio am y wybodaeth.

  Os yw aelodau Cyfetholedig yn dymuno cael yr opsiwn hwn byddant angen hyfforddiant ychwanegol."

- Atgoffwyd Aelodau fod ambell fywgraffiad wedi dyddio ac y dylent gael eu diweddaru cyn gynted â phosib, pan fo newidiadau'n digwydd.

## 4 ARGYMHELLIAD

1 Gofynnir i’r Pwyllgor Safonau

(a) Nodi cynnwys yr Adroddiad hwn:

(b) Nodi cynnwys **Atodiad 1**;

(c) Penderfynu pa gamau, os o gwbl, y mae’n dymuno eu cymryd mewn perthynas â-

(i) yr Aelod Etholedig sydd heb ymateb i geisiadau mewn perthynas â’i Gofrestr o Ddiddordebau (yn unol â’r manylion ym mharagraff 2.6 yr adroddiad hwn);

(ii) yr Aelodau Cyfetholedig sydd heb ymateb i ddarparu gwybodaeth am hyfforddiant (yn unol â’r manylion ym mharagraff 3.5 yr adroddiad hwn); a

(iii) y materion TGCh a nodwyd ac a godwyd gyda’r gwasanaeth TGCh (yn unol â’r manylion ym mharagraffau 2.3 a 3.5 yr Adroddiad hwn, a’r diweddariad a ddarperir ym mharagraffau 2.5 a 3.5 yr Adroddiad hwn)

| | |
|---|---|
| **From:** | Medwen Jones |
| **To:** | Aelodau Members; John Mendoza; Dilwyn Evans; Anest Frazer; Keith R. Roberts; dafydd@mentermon.com |
| **Subject:** | Canfyddiadau Adolygiad y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau Diddordeb yr Aelodau - Standards Committee"s Findings following a Review of the Members" Registers of Interests - swyddogol / official |
| **Date:** | 03 May 2018 18:13:31 |

Annwyl Aelod,

Ac eithrio yn 2016/17, pan oedd y Pwyllgor Safonau yn canolbwyntio ei ymdrechion ar Gofrestr Diddordebau'r Cynghorau Tref a Chymuned, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau mewn perthynas â datganiadau o ddiddordebau gan Aelodau a gedwir gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Safonau'n credu mai ei rôl yw cynorthwyo Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau, nid i chwilio am gamgymeriadau a gobeithiwn y bydd yr argymhellion o'r adolygiad yn ddefnyddiol.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cymorth gyda'r adolygiad, ac am ddiweddaru eich ffurflenni lle bo angen cyn cynnal yr adolygiad. Roedd yr wybodaeth a adolygwyd yn cynnwys: -

- Y Gofrestr Sefydlog
- Datganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau
- Rhaglenni a Chofnodion Cyfarfodydd
- Hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor a Chofnod Hyfforddi pob aelod
- Rhestr Cyrff Allanol

Yn dilyn adolygiad eleni, mae'r Pwyllgor yn gofyn i chi roi sylw dyladwy i'w gasgliadau cyffredinol fel a ganlyn: -

**Y Gofrestr Sefydlog**

1. Fe fyddem yn atgoffa Aelodau yn benodol i sicrhau bod eu cyfeiriadau a'u daliadau tir wedi'u disgrifio'n glir yn adran 1.6 y gofrestr. Os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn unrhyw dir, dylent nodi 'Dim' neu 'Dim Diddordebau' ar y gofrestr.

2. Mae hefyd yn bwysig bod Aelodau'n datgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus, elusennau a chymdeithasau cyhoeddus eraill. Dylai aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y sefydliadau / elusennau y maent yn aelodau ohonynt. Dylai'r Aelodau hefyd fanylu ar eu statws yn y sefydliad hwnnw.

3. Mae anghysonderau hefyd o ran aelodaeth o sefydliadau allanol rhwng y rhai a restrir gan y Cyngor a'r rhai a ddatganwyd gan aelodau unigol; nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi ar y ffurflenni er eu bod wedi'u rhestru ar "flaen dudalen" pob Aelod. Mae blaen dudalennau Aelodau i'w gweld yn - http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1

4. Pan mae Aelodau'n datgan diddordeb mewn busnes, dylent ddarparu digon

o wybodaeth ynghylch yr hyn y mae'r diddordeb busnes yn ei olygu.

5. Atgoffir aelodau o'r gofyniad statudol i ddiweddaru'r Gofrestr Sefydlog o fewn 28 diwrnod i unrhyw newidiadau ddigwydd.

6. Er mwyn lliniaru'r problemau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r ffurflenni cyn-gofrestru (ddim yn gyfredol / anghyflawn), mae'r Pwyllgor Safonau wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth TGCh i'w trafod. Noder y bydd aelod o'r tîm TGCh ar gael am sesiwn galw heibio am awr yn Siambr y Cyngor cyn pob un o'r pedwar cyfarfod cyffredin o'r Cyngor am y 12 mis nesaf. Cynhelir y sesiwn galw heibio gyntaf yn Lolfa'r Aelodau fore Ddydd Mawrth, Mai 15fed 2018 rhwng 9.30yb a 10.30yb. Yn ystod y sesiwn, gallwch fanteisio ar hyfforddiant pellach ar sut i ddiweddaru'r ffurflenni ar-lein. Y gobaith yw y bydd hon yn ffordd o'ch cynorthwyo chi fel Aelodau i gydymffurfio â'ch dyletswyddau statudol yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**<u>Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd</u>**

1. Pan fydd Aelodau'n ticio'r blwch i ddatgan diddordeb, rhaid iddynt hefyd nodi manylion y diddordeb hwnnw. Rhaid i natur y diddordeb ac a yw'r diddordeb hwnnw yn ddiddordeb personol neu'n un sy'n rhagfarnu fod yn amlwg ar y ffurflen.

2. Mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir gan yr Aelodau ynghylch natur y diddordeb a'r modd y mae'n ymwneud â'r eitem ar yr agenda.

3. Os yw'r Aelodau'n ansicr a oes ganddynt ddiddordeb y mae angen ei ddatgan mewn cyfarfodydd, dylent geisio cyngor er mwyn osgoi anghysonderau yn y datganiadau a wneir.

4. Mae aelodau weithiau yn datgan diddordebau ar lafar mewn cyfarfodydd ond nid ydynt yn cwblhau'r gwaith papur. Mae angen cwblhau'r ffurflen ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ym mhob cyfarfod lle datgenir diddordeb o'r fath ar lafar, oherwydd nid yw datganiadau llafar o ddiddordeb yn ddigonol ynddynt eu hunain.

**<u>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch</u>**

Ychydig iawn o ddatganiadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a gwahoddir Aelodau i ail-ymgyfarwyddo eu hunain â'r <u>Protocol Rhoddion a Lletygarwch</u>

**<u>Hyfforddiant</u>**

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi sylwi bod nifer o Aelodau wedi methu â mynychu digon o hyfforddiant eleni.

Ar adeg yr adolygiad, nid oedd 5 Aelod wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ers yr etholiad ym mis Mai 2017, er gwaethaf cael eu gwahodd i hyfforddiant o'r fath. Mae hyn yn achosi llawer o bryder. Rwyf wedi cysylltu â'r

unigolion hynny yn uniongyrchol.

Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn anodd llywio trwy'r wybodaeth berthnasol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddi Aelodau. Felly mae ymholiadau'n parhau o ran gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer mynychu sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd cyrff allanol, a sut y gall y cyhoedd weld y wybodaeth honno.

Gofynnwyd am eglurder hefyd mewn perthynas â'r hyfforddiant cynllunio a'r hyfforddiant diogelu gorfodol y mae'n rhaid i'r Aelodau eu mynychu.

**<u>Aelodaeth a Phresenoldeb ar Gyrff Allanol</u>**

Noder os gwelwch yn dda y gofynnwyd i Arweinyddion Grwpiau fonitro aelodaeth yr Aelodau o gyrff allanol a'u presenoldeb yng nghyfarfodydd y cyrff hynny. Gofynnwyd iddynt hefyd sicrhau bod yr Aelodau'n darparu adborth priodol ar y materion a godwyd ynddynt.

Mae'r canfyddiadau hyn yn nodi casgliadau cyffredinol yr adolygiad. Mae rhai Aelodau unigol wedi derbyn negeseuon e-bost personol gan y Pwyllgor Safonau gydag argymhellion ar gyfer adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth a gyhoeddwyd. Lle ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol, gofynnwyd i rai Aelodau gyfarfod â mi. Yn y llythyrau, rydym wedi gofyn am ymatebion. Lle na dderbyniwyd ymatebion, cofiwch y byddwn yn codi'r mater gyda'ch Arweinyddion Grwp.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eich bod chi i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o dasgau y mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw yw hon. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd yr argymhellion uchod yn cynorthwyo i arbed amser i'r Aelodau oherwydd bydd gwella safon y ffurflenni, gobeithio, yn osgoi beth allai fod yn gwynion di-sail sy'n draul ar amser pawb.

Cofion,

---

Dear Member,

Apart from in 2016/17, when the Standards Committee concentrated its efforts on the Town and Community Councils' Register of Interests, the Standards Committee conducts an annual review of the Registers in respect of declarations of interests by Members which are held by the Council. The Standards Committee believe its role is to assist Members to comply with their duties, not to look for errors and we hope that you will find the recommendations from the review helpful.

Thank you for your support and assistance with the review, and for updating your forms where necessary prior to the review being conducted. The information reviewed included:-

- The Standing Register

- Declarations made in meetings
- Gifts & Hospitality Register
- Members Annual Reports
- Agenda and Minutes of Meetings
- Training offered by the Council and each member's Training Record
- Outside Bodies list.

Following this year's review, the Committee asks that you have due regard to its general findings, which are as follows:-

**The Standing Register**

-

1. We would remind Members specifically to ensure that their addresses and land holdings are clearly described in section 1.6 of the register. If a Member has no interest in land they should enter 'None' or 'No Interest' on the register.

2. It is also important that Members disclose their membership of other public bodies, charities and associations. Members should provide the full name and address of organisations/charities of which they are members. Members should also detail their status within that organisation.

3. There are also inconsistencies in terms of membership of external organisations between those listed by the Council and those declared by individual members; they are not always recorded on the forms although they are listed on every Member's "front page". Members "front page" can be found at -
   http://democracy.anglesey.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?LLL=0

4. Where Members are declaring a business interest they should provide sufficient information on what the business interest is.

5. Members are reminded of the statutory requirement to update the Standing Register within 28 days of any changes occurring.

6. In order to alleviate the problems which have been identified in relation to the pre-registration forms (being out of date / incomplete), the Standards Committee has met with representatives from the ICT Service to discuss. Please note that a member of the ICT team will be available for an hour's drop-in session in the Council Chamber before each of the four ordinary meetings of the Council for the next 12 months. The first drop-in session will be held in the Members' Lounge between 9.30am and 10.30am on Tuesday 15th May 2018. During the session you can take advantage of further training on how to update the online forms. It is hoped that this is a way of assisting you as Members to comply with your statutory duties in accordance with the Code of Conduct.

**Declaration of interests in meetings**

-

1. When Members are ticking the box to declare an interest they must also provide details of that interest. Both the nature of the interest and whether that interest is a personal or a prejudicial interest must be evident on the form.

2. Greater clarity is required in respect of the information supplied by Members regarding the nature of the interest and how it relates to the item on the agenda.

3. If Members are unsure as to whether they have a declarable interest in meetings they should seek advice in order to avoid inconsistencies in the declarations being made.

4. Members occasionally declare an interest orally at meetings but do not complete the paperwork. The form needs to be completed for declarations of interest at every meeting where such an interest is declared orally, as oral declarations of interests alone are not sufficient.

**Register of Gifts and Hospitality**

Few declarations are made with regard to gifts and hospitality and Members are invited to re-familiarise themselves with the Protocol of Gifts and Hospitality

**Training**

The Standards Committee has observed that several Members have failed to attend sufficient training this year.

At the time of review, 5 Members had not attended training on the Code of Conduct since the election in May 2017, despite being invited to such training. This causes much concern. I have contacted those individuals directly.

The Standards Committee considered that to navigate through the relevant information, particularly in relation to Members' training, was difficult. Enquiries are therefore ongoing in terms of improving the information available for attendance at training sessions and in meetings of outside bodies, and how that information may be viewed by the public.

Clarity has also been sought in relation to the compulsory planning training and safeguarding training which Members must attend.

**Membership and Attendance on Outside Bodies**

Please note that Group Leaders have been requested to monitor Members' membership and attendance at meetings of outside bodies. They have also been requested to ensure Members are providing appropriate feedback on matters raised therein.

These findings set out the general conclusions of the review. Some individual

Members have received personal emails from the Standards Committee with recommendations for review / updating / explaining some of the information which has been published. Where it was considered necessary, some Members have been requested to meet with me. In the letters, we have asked for responses. Where responses have not been received, please be aware that we will be raising the matter with your Group Leaders.

The Committee appreciates that you are all very busy and is aware that this task is only one of a number that you have to address. However, we hope that the above recommendations will assist in saving time for Members as improving the standard of the forms will hopefully avoid what may potentially be groundless and time consuming complaints.

Regards,

Mike Wilson

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee.
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

Document: CC-019486-MY/437441

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley<br>Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol<br>mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@anglesey.gov.uk<br>01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2017) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14.03.2018.

2.2 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2018) at aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 10/04/2018.

Mae copi pellach o'r adroddiad anfonwyd eisoes drwy ebost ar 10/04/2018 ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi pellach o'r adroddiad anfonwyd eisoes drwy ebost ar 10/04/2018 ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2018) at aelodau'r Pwyllgor Safonau ar e-bost ar 06/07/2018.

Mae copi pellach o'r adroddiad anfonwyd eisoes drwy ebost ar 06/07/2018 ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi pellach o'r adroddiad anfonwyd eisoes drwy ebost ar 06/07/2018 ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiad nesaf, ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2018), yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau ar ddechrau mis Hydref 2018; ond nodir ar hyn o bryd nad oes cŵyn wedi ei derbyn.

## 3. ARGYMHELLIAD

Fod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys Atodiadau 1-4 ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw weithrediadau sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth) – 2017/2018 – Quarter 4 (January - March)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-020739<br>(ii) 201706867 | 05/02/2018 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-020762<br>(ii) 201707039 | 04/02/2018 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) - 2017/2018 – Quarter 4 (January to March)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Aelod o'r Cyhoedd / Member of the public | (i) CC-020705<br>(ii) 201706581 | 17/1/2018 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Aelod o'r Cyhoedd / Member of the public | (iii) CC-020838<br>(iv) 201707290 | 21.02.2018 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |

Tudalen 36

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) – 2018/2019 – Quarter 1 (April - June)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Sir / County Councillor | Aelod o'r cyhoedd / Member of the public | (i) CC-020885<br>(ii) 16413/201800026 | 04/04/2018 | Mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio / The Ombudsman has decided not to investigate |

Tudalen 37

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill i Mehefin) - 2018/2019 – Quarter 1 (April to June)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT | | | | |

Tudalen 38

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12/09/2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Ionawr 2018 a Mai 2018** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Swyddog Monitro / Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Coflyfr o Gwynion Cod Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Ionawr 2018 a'i Goflyfr ar gyfer Mai 2018. Mae crynodeb o'r achosion o Goflyfr Ionawr wedi'i atodi fel **ATODIAD 1** a Choflyfr Mai wedi'i atodi fel **ATODIAD 2.**

## 2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf llywodraeth leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a

- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:-

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a yw'r cod ymddygiad wedi'i dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i roi gwaharddiadau i gynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad bod o hyfforddiant/cyfryngu. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso am hyd at 5 mlynedd.

Tra bo gan y PDC statws cyfreithiol fel tribiwnlys a'i fod wedi cyhoeddi ei benderfyniadau bob amser (yn cynnwys unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r pwyllgorau safonau) nid oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ei adroddiadau na'i ganfyddiadau, ond, yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno'r Coflyfr chwarterol sy'n darparu crynodeb o achosion. Bydd unrhyw beth a gyfeirir at bwyllgor safonau, wrth gwrs, ar gael ar wefan y Cyngor.

## 3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1** ac **ATODIAD 2**.

**ATODIAD 1**

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Caerdydd | Honiad fod Cynghorydd wedi gwneud sylwadau i gyn-gynghorydd ar ddau achlysur ynglŷn â chymdeithas grefyddol leol (dim mwy o fanylder yn yr adroddiad ynghylch y sylwadau a wnaed). Roedd yr aelod yn gwadu'r honiadau'n gryf. Nid oedd unrhyw dystion i'r un o'r ddwy sgwrs. | Paragraffau 4(a) – cydraddoldeb, 4(b) – methu â dangos parch ac ystyriaeth, 4(d) – bod yn ddiduedd a 6(1)(a) – dwyn anfri ar swydd cynghorydd neu'r awdurdod. | • Dim tystiolaeth o dorri'r Côd | • Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o faterion ynghylch cydraddoldeb gan gynnwys crefydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Methyr Tudful | Gwnaed cwyn fod y Cynghorydd wedi gwneud sylwadau am aelod o'r cyhoedd mewn sgwrs grŵp messenger ar Facebook (dim mwy o fanylder yn yr adroddiad ynghylch y sylwadau a wnaed).<br><br>Roedd y grŵp sgwrsio messenger ar Facebook lle gwnaeth y Cynghorydd ei sylwadau yn cynnwys tri aelod.<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi dangos ei bod yn difaru yr hyn a wnaeth ar ôl iddi sylweddoli fod y person oedd yn destun ei sylwadau wedi dod i wybod am y neges yr oedd hi chyhoeddi, ac fe ymddiheurodd. | Paragraff 6(1)(a) – dwyn anfri ar swydd cynghorydd neu'r awdurdod. | • Ni thorrwyd y Côd<br>• Er bod gweithredoedd y Cynghorydd o bosib wedi dwyn anfri arni hi eu hun, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd hi wedi dwyn anfri ar y swydd na'r awdurdod. | • Atgoffwyd y Cynghorydd o'i chyfrifoldeb i fod yn ofalus wrth fynegi ei barn bersonol. |

**ATODIAD 1**

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd | Cwynodd Cynghorydd X fod Cynghorydd Y o Gyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd wedi gwneud honiadau personol amdani (dim mwy o fanylder yn yr adroddiad ynghylch y sylwadau a wnaed). Cyflwynodd Cynghorydd X dystiolaeth fod Cynghorydd Y wedi gwneud sylwadau amdani mewn nifer o e-byst, yr oedd o wedi eu hanfon at aelodau o Gyngor Tref Tywyn a Chyngor Gwynedd, ac aelod o'r wasg. | Paragraffau 4(b) – methu â dangos parch ac ystyriaeth, 4(c) – bwlio ac aflonyddu a 6(1)(a) – dwyn anfri ar swydd cynghorydd neu'r awdurdod. | • Ni thorrwyd y Côd<br>• Mewn perthynas â 6(1)(a), roedd yr Ombwdsmon yn ystyried ei bod yn "annoeth" i'r Cynghorydd anfon e-bost at aelod o'r wasg, ond nid oedd yn ymddangos fod unrhyw gamau wedi eu cymryd ar sail yr e-bost nag i'r neges gael ei rhannu ymhellach felly nid oedd canlyniadau gweithredoedd y Cynghorydd yn ddigon difrifol i ddwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod. | • Atgoffwyd y Cynghorydd am ei gyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o sut mae ei sylwadau yn ymddangos i eraill yn y dyfodol. |
| Cyngor Cymuned Llansannan | Cwynodd Mr X fod y Cynghorydd wedi gofyn i Mr X adael cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ac wedi defnyddio'r geiriau "er eich diogelwch eich hun", ac roedd Mr X yn ystyried y geiriau hynny fel bygythiad. | Paragraffau 4(b) – methu â dangos parch ac ystyriaeth a 4(c) – bwlio ac aflonyddu. | • Ni thorrwyd y Côd<br>• Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod ymddygiad y Cynghorydd tuag at Mr X yn fygythiol o gwbl ac roedd yr Ombwdsmon yn fodlon fod ei weithredoedd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. | • Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o sut mae eu sylwadau yn ymddangos i eraill. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Roedd y Cynghorydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad ysgrifenedig, mewn rôl swyddogol, i gais cynllunio yr oedd yr achwynwyr wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r Cynghorydd yn byw ger safle'r cais a gallai gael effaith bersonol arno ef. | Paragraff 12 – methu â datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu | • Torrwyd y Côd o ystyried pa mor agos yw safle'r datblygiad at gartref y Cynghorydd a'r ffaith fod ei wrthwynebiad wedi ei anfon o'i gyfeiriad e-bost Cyngor a'i fod wedi ei lofnodi drwy ysgrifennu "Cynghorydd [Enw]".<br>• Fodd bynnag, ni chymerodd yr Ombwdsmon unrhyw gamau ar y sail fod y Cynghorydd wedi dangos edifeirwch ac wedi ymddiheuro. Roedd ei esboniad iddo ddewis cyfeiriad e-bost y Cyngor mewn camgymeriad o ddewislen wrth ysgrifennu ei e-bost yn gredadwy, roedd o wedi gweithredu'n gyflym i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl pan godwyd pryderon ac ni chafodd ei weithredoedd effaith niweidiol ar y cais cynllunio, a gafodd ei ganiatáu. | • Dylai Aelodau gysidro os ydyn nhw yn gweithredu mewn swyddogaeth gyhoeddus neu bersonol<br>• Mae Aelodau angen bod yn hyderus eu bod yn deall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu<br>• Mae canlyniad y mater hwn yn dangos faint o bwyslais mae'r Ombwdsmon yn ei roi ar Aelodau yn cymryd camau lliniarol h.y. dangos eu bod yn edifar ac ymddiheuro am eu gweithredoedd. |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canlyniadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanbedrog | Honiad fod Cynghorydd wedi torri'r Côd drwy fethu â gadael yr ystafell pan oedd ei gais cynllunio'n cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.<br><br>Roedd y Cynghorydd wedi datgan diddordeb ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth, ond ni adawodd y cyfarfod, a thrwy hynny roedd yn torri'r Côd gan fod ei ddiddordeb yn un oedd yn rhagfarnu. | Paragraffau 10, 11 a 12 mewn perthynas â diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu. | • Dim angen cymryd camau mewn perthynas â'r gŵyn.<br>• Wrth beidio gadael yr ystafell roedd y Cynghorydd yn torri'r Côd Ymddygiad ond roedd hynny'n cael ei liniaru ar y sail nad oedd y Cynghorydd wedi cymryd rhan yn y drafodaeth ac, oherwydd fod yr eitem yn un mor fyr, ychydig iawn o gyfle fyddai'r Cynghorydd wedi'i gael i adael.<br>• Hefyd, nid y Cyngor Cymuned oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ar faterion cynllunio ac felly ni chafodd gweithredoedd y Cynghorydd fawr o effaith. | • Mae Aelodau angen bod yn hyderus eu bod yn deall y gwahaniaeth rhwng diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu |
| Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd | Cwyn fod Cynghorydd wedi trefnu i swm o arian, a fwriadwyd ar gyfer y Cyngor Cymuned, gael ei dalu i brosiect cymunedol. Roedd y Cynghorydd yn Gadeirydd ar y Cyngor Cymuned a'r prosiect | Paragraffau 6(1)(a), 7(b)(ii) a 7(b)(iv) – dwyn anfri ar ei swydd, defnyddio adnoddau'r | • Nid oedd angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r gŵyn ar sail prawf diddordeb cyhoeddus. | • Mae sawl Aelod CSYM efo rôl mewn gwahanol fudiadau ac angen bod yn ofalus wrth gysidro |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | cymunedol.<br><br>Penderfynwyd nad oedd gan y Cyngor hawl cyfreithiol i dderbyn yr arian ac o'r herwydd nid oedd modd ei ystyried fel adnoddau'r Cyngor; felly bodlonwyd paragraff 7.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Ombwdsmon yn ystyried fod y Cynghorydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o bosib oherwydd ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod gan iddo ymddwyn yn amhriodol yn y modd yr oedd o wedi cael yr arian ar gyfer y prosiect drwy roi'r argraff ei fod yn gweithredu ar ran y Cyngor. | awdurdod. | • Roedd y Cadeirydd yn amhrofiadol ac yn credu, ar gam, ei fod yn gweithredu er budd y cyhoedd. Nid oedd wedi elwa'n bersonol o ganlyniad i'w weithredoedd. | oes ganddo/ganddi ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu sy'n ei atal/ei hatal rhag cymryd rhan yn y mater dan sylw.<br>• Dylai Aelodau hefyd gysidro os ydi'r caniatâd arbennig sydd wedi ei gynnwys yn y Côd Ymddygiad yn gymwys o dan yr amgylchiadau. |
| Cyngor Cymuned Llai | Cwynodd aelod o'r cyhoedd fod Cynghorydd wedi methu â datgan diddordeb personol a'i fod wedi cymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio a oedd yn effeithio ar safle cangen sefydliad elusennol yn Llai. Mae'r Cynghorydd yn Ysgrifennydd Pwyllgor Cymdeithasol y Clwb Cymdeithasol sydd â thrwydded i weithredu o safle'r sefydliad elusennol. | Paragraffau 11(1) a 14(1)(a)(ii) - Diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu. | • Roedd tystiolaeth i awgrymu fod y Côd wedi'i dorri. Roedd diddordeb personol y Cynghorydd yn un oedd yn rhagfarnu a dylai fod wedi gadael y cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod.<br>• Fodd bynnag, roedd amgylchiadau lliniarol yn bodoli megis y ffaith nad | • Mae sawl Aelod CSYM efo rôl mewn gwahanol fudiadau ac angen bod yn ofalus wrth gysidro oes ganddo/ganddi ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu sy'n ei atal/ei hatal rhag cymryd rhan yn y mater dan sylw.<br>• Dylai Aelodau hefyd |

Tudalen 45

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | Roedd y Cyngor wedi pleidleisio'n unfrydol i wrthwynebu'r cais cynllunio.<br><br>Nid oedd y Cynghorydd wedi datgan diddordeb personol na diddordeb personol sy'n rhagfarnu. Hyd yn oed pan gafodd ei gyfweld gan yr Ombwdsmon, nid oedd y Cynghorydd yn ystyried bod angen iddo ddatgan diddordeb a gadael y cyfarfod. | | y Cyngor oedd yr awdurdod oedd yn gwneud y penderfyniad, ond yn hytrach yn ystyried y cais fel ymgynghorai; ni fyddai'r Cynghorydd yn elwa'n bersonol o'r canlyniad; ac roedd rôl y Cynghorydd gyda'r Cyngor a'r Pwyllgor Cymdeithasol yn ddigon annibynnol o'i gilydd i liniaru'r effaith. Nid oedd angen gweithredu pellach.<br>• Wrth dderbyn datganiadau tystion gan yr aelodau eraill, roedd yr Ombwdsmon yn pryderu ynglŷn â'r dryswch ymddangosiadol ymysg cynghorwyr yn gyffredinol ynglŷn â diddordebau personol, ac roedd yn ystyried y byddai hyfforddiant ychwanegol yn ymateb i hynny. | gysidro os ydi'r caniatâd arbennig sydd wedi ei gynnwys yn y Côd Ymddygiad yn gymwys o dan yr amgylchiadau. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau gan y Cadeirydd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu copi o'r Adroddiad Blynyddol i aelodau a gwybodaeth am y gwaith i'w gyflawni yn 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

**A CEFNDIR**

1 Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2018/19 i'r Cyngor ar 15 Mai 2018.

2 Cyflwynir copi o'r Adroddiad yn **Atodiad 1**.

3 Mae'r Adroddiad yn manylu ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2017/18 ac yn cynnwys rhaglen waith ar gyfer 2018/19.

**B ARGYMHELLIAD**

1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn **Atodiad 1**.

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 15 Mai 2018 |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2017/18 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2018/19 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) |

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol ac arno 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod Cyngor Cymuned).

2. Cafodd swydd wag achlysurol ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ei llenwi drwy broses agored a chystadleuol a gynhaliwyd gan Banel Dethol Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Penodwyd aelod newydd ar 12 Rhagfyr, 2017. Daw tymor Mr John Robert Jones i ben ar 11 Rhagfyr 2025. Daw tymor y pedwar aelod annibynnol arall i ben ar 17 Rhagfyr 2019.

   Fel rhan o'r broses ddethol, cytunwyd y dylai Ms Sarah Laing Gibbens gael ei phenodi'n awtomatig pe bai swydd wag arall achlysurol ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeg mis nesaf a hynny heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn y penodiad.

3. Penodwyd dau gynrychiolydd o'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod y flwyddyn hefyd. Penodwyd y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r Cynghorydd Keith Roberts o Gyngor Cymuned Bae Trearddur ar 12 Rhagfyr 2017 am y cyfnod hyd at yr etholiad llywodraeth leol nesaf neu hyd at gyfnod pan nad yw'r aelodau a benodwyd yn aelodau mwyach o Gyngor Cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

4. Ailbenodir aelodau'r Cyngor Sir yn flynyddol gan y Cyngor.

5. Mae gan y Pwyllgor Safonau (ymhlith eraill) y rolau a'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref / Cymuned: -
   (a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr;
   (b) cynorthwyo Cynghorwyr i lynu wrth eu Cod Ymddygiad
   (c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr;
   (ch) ystyried ceisiadau am ganiatadau arbennig;

(d) ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru (sef y Pwyllgor Safonau cenedlaethol i bob pwrpas).

**Cefndir**

6. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2017, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2017/2018. Roedd y Rhaglen wreiddiol yn nodi'r meysydd gwaith arfaethedig, yr amserlen a'r adnoddau ar eu cyfer. Atgynhyrchir y ddogfen hon yn **ATODIAD B** yr Adroddiad hwn ac fe'i diweddarwyd i gynnwys y gwaith sydd wedi'i gyflawni ers hynny yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn wreiddiol.

7. Mae **ATODIAD C** yr Adroddiad hwn yn cynnwys Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2018/2019, a gyflwynir ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor.

**Sylwadau'r Cadeirydd**

8. Hoffai'r Cadeirydd ddiolch i'r Pwyllgor am ei gyfraniadau ymroddedig trwy gydol y flwyddyn, i gydnabod cefnogaeth a chyngor y swyddogion sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor, a diolch i aelodau'r Cyngor Sir am eu parodrwydd i ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor.

**8.1 Cwynion**

Yn 2016, roedd y Pwyllgor yn falch o fedru dweud wrth y Cyngor: "ei fod wedi treulio llai o amser yn cynnal gwrandawiadau, neu'n mynychu cyfarfodydd / cyfryngu yn deillio o achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad." Unwaith eto, fel y cofnodwyd yn 2017, mae'r duedd gyffredinol hon yn parhau.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiadau bob chwarter ac yn ei gyfarfodydd arferol sy'n darparu gwybodaeth ystadegol am nifer a statws cwynion mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad a gyflwynwyd i'r OGCC yn erbyn (a) Aelodau CSYM a (b) Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned. Yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor, ar 14 Mawrth 2018, nodwyd, o blith holl aelodau ein Cynghorau Tref, Cynghorau Cymuned a Chyngor Sir, mai dim ond un mater yr adroddwyd arno a bod OGCC wedi cadarnhau na fyddai'n ymchwilio ymhellach i'r mater hwnnw.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu bod hunanreoleiddio'n gweithio a bod adrodd i OGCC ar ychydig o gwynion, pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, yn arwydd o fudiad sy'n gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng y taro a'r gwrthdaro mewn gwleidyddiaeth a materion a allai fod yn fwy difrifol ac sydd efallai angen ymchwiliad annibynnol iddynt. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer a lefel y cwynion i OGCC yn arwydd o iechyd corfforaethol da.

**8.2 Cyfarfodydd**

Hon oedd y flwyddyn lawn gyntaf i'r Pwyllgor gyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn unig (yn hytrach na'n chwarterol fel yr oedd dan y trefniant blaenorol). Mae hyn yn parhau i fod yn fwy aml na'r gofyniad statudol sy'n nodi bod raid i bwyllgorau safonau gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Mae'n ymddangos bod yr amlder hwn wedi gweithio'n dda ac mae'r rhaglenni yn y ddau gyfarfod ffurfiol a gynhelir bob blwyddyn yn parhau i fod yn briodol.

Wrth gwrs, gellir galw cyfarfodydd arbennig i sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw rwymedigaethau statudol a gellir parhau i gynnal cyfarfodydd anffurfiol yn unol â gofynion busnes. Yn wir, mae hyn wedi digwydd gyda chynnal 2 gyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig yn ystod y flwyddyn a 3 chyfarfod o'r Panel Dethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol eraill hefyd yn ôl yr angen.

**8.3 Caniatâd Arbennig**

Gall y Pwyllgor Safonau ryddhau caniatadau arbennig, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r Aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnus) sylweddol. Efallai y bydd y Pwyllgor Safonau mewn sefyllfa weithiau i oresgyn y diddordeb rhagfarnus hwnnw os bodlonir rhai amodau. Mae'r Rheoliadau ar Ganiatâd Arbennig yn gymwys i Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned.

Y llynedd, adroddwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi cylchredeg cyngor pellach i'r Aelodau am ganiatâd arbennig a bod hyn wedi cael ei ailadrodd mewn sesiwn hyfforddiant, a gynhaliwyd ar 18 Mai 2017. Cylchredwyd nodyn briffio ar Ganiatâd Arbennig i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned hefyd ar 06.03.2017.

Yn 2017/2018, rhoddodd y Pwyllgor Safonau bedwar caniatâd arbennig. Roedd dau ohonynt yn ganiatâd arbennig cyffredinol ar gyfer yr holl aelodau a oedd yn disodli caniatadau a oedd wedi dod i ben yn awtomatig ar ôl yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2017 a rhyddhawyd dau ohonynt yn dilyn ceisiadau gan Gynghorydd Sir a Chynghorydd Cymuned.

Dylai'r aelodau hynny sydd wedi cael caniatâd arbennig nodi y bydd yn rhaid iddynt ddatgan diddordeb personol a chadarnhau eu bod yn dibynnu ar y caniatâd a roddwyd iddynt ar ddyddiad penodol.

Argymhellir bod pob Cynghorydd Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn ystyried a allai cais am ganiatâd arbennig fod yn briodol iddyn nhw dan rai amgylchiadau.

**8.4 Datblygiad Personol**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell i'r holl Aelodau eu bod yn ymgysylltu â'r Rhaglen Hyfforddi a Datblygu a gynigir gan y Cyngor Sir a'u bod yn derbyn y cynnig o Adolygiadau Datblygiad Personol gyda'u Harweinyddion Grwpiau.

**8.5 Hyfforddiant**

Yn dilyn ymlaen o'r pwynt uchod, mynychais un o dair sesiwn hyfforddiant a drefnwyd gan CLlLC ym mis Tachwedd 2017 ar gyfer Cynghorwyr a oedd newydd eu hethol ac roeddwn yn siomedig iawn gyda’r gynrychiolaeth o blith Aelodau Ynys Môn. Roedd yn gwrs addysgiadol iawn a rhoddodd Mark Drakeford AC (Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Leol ar y pryd) gyflwyniad yno. Byddwn eto'n ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor Safonau yn 8.4 uchod bod yr Aelodau'n cymryd rhan yn y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu a gynigir gan y Cyngor Sir.

**8.6 Cofrestrau Diddordebau Aelodau**

Y llynedd adroddwyd bod y Pwyllgor Safonau wedi cynnal adolygiad o sampl o’r cofrestrau sengl o ddiddordebau aelodau a gedwir yn y Cynghorau Tref a Chymuned. Bwriad hyn oedd cynorthwyo'r cynghorau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth ar ôl Mai 2017.

Fodd bynnag eleni, dychwelodd y Pwyllgor Safonau at ei dasg o gynnal adolygiad blynyddol o’r tair cofrestr o ddiddordebau’r Cynghorwyr Sir. Roedd hyn yn arbennig o bwysig eleni oherwydd y byddai'n darparu darlun am y flwyddyn ers ethol rhai Aelodau newydd ac ail-ethol Aelodau eraill.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod angen o hyd i nifer o aelodau adolygu eu rhag-ddatganiadau yn y "gofrestr sefydlog", gan fod rhai cofnodion yn anghyflawn neu’n aneglur. Codwyd y pryderon hyn yn ystod y blynyddoedd blaenorol, mewn nodiadau cynghori cyffredinol a anfonwyd at bob aelod, yn arbennig mewn perthynas â materion penodol yn ymwneud ag aelodaeth o gyrff allanol a diffyg eglurder o ran lleoliad tir / eiddo ym mherchnogaeth rhai aelodau. Er mwyn lliniaru rhai o'r problemau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r ffurflenni cyn-gofrestru (sef eu bod yn anghyflawn / ddim yn gyfredol), bydd aelod o'r tîm TGCh ar gael am sesiwn galw heibio am awr yn Siambr y Cyngor cyn pob un o'r pedwar cyfarfod arferol o'r Cyngor am y 12 mis nesaf. Yn ystod y sesiynau hynny, gall Aelodau fanteisio ar hyfforddiant pellach ar sut i ddiweddaru'r ffurflenni ar-lein.

Gellid gwella datganiadau a wneir gan rai Aelodau mewn cyfarfodydd pe bai'r Aelodau'n cwblhau'r ffurflen yn llawn ac yn darparu digon o wybodaeth mewn perthynas â'r diddordeb a’r modd y mae’n berthnasol i’r eitem ar y rhaglen.

Mae hyfforddiant hefyd wedi'i nodi fel maes y mae angen ei wella yn achos rhai ynghyd â sicrhau mynediad yn rhwyddach i’r wybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd. Felly, gwnaed rhai newidiadau i'r wefan ac fe’u trafodwyd mewn sesiwn friffio gydag Aelodau ar 3 Mai 2018; nid yw'r wybodaeth yn newydd, ond mae llwybrau newydd wedi cael eu sefydlu i’r ffynonellau gwybodaeth hyn o dudalen bywgraffiad pob Aelod.

Yn dilyn yr adolygiad, mae rhai aelodau unigol wedi derbyn negeseuon e-bost personol gan y Pwyllgor Safonau gydag argymhellion mewn perthynas â rhywfaint o'r wybodaeth a gyhoeddwyd. Anfonwyd e-bost yn manylu ar gasgliadau cyffredinol yr adolygiad i'r holl Aelodau **(ATODIAD A)** .

Eleni, bwriad y Pwyllgor yw adolygu sampl o'r cofrestrau a gedwir gan Gynghorau Tref / Cymuned (fel y llynedd) ac adroddir ar y canfyddiadau cyffredinol i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned yn ddiweddarach eleni. Bydd yn ddiddorol gweld a yw'r safonau wedi cael eu cynnal neu wedi gwella ers yr adolygiad diwethaf yn 2016/2017.

**ARGYMHELLIAD: -**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2017 a mis Mai 2018 fel y'i gwelir yn **ATODIAD B.**

2. Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2018/2019 fel y'i hamlinellir yn **ATODIAD C.**

**ENCLOSURE A**

Annwyl Aelod,

Ac eithrio yn 2016/17, pan oedd y Pwyllgor Safonau yn canolbwyntio ei ymdrechion ar Gofrestr Diddordebau’r Cynghorau Tref a Chymuned, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Cofrestrau mewn perthynas â datganiadau o ddiddordebau gan Aelodau a gedwir gan y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Safonau'n credu mai ei rôl yw cynorthwyo Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau, nid i chwilio am gamgymeriadau a gobeithiwn y bydd yr argymhellion o’r adolygiad yn ddefnyddiol.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cymorth gyda'r adolygiad, ac am ddiweddaru eich ffurflenni lle bo angen cyn cynnal yr adolygiad. Roedd yr wybodaeth a adolygwyd yn cynnwys: -

- Y Gofrestr Sefydlog
- Datganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau
- Rhaglenni a Chofnodion Cyfarfodydd
- Hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor a Chofnod Hyfforddi pob aelod
- Rhestr Cyrff Allanol



Yn dilyn adolygiad eleni, mae'r Pwyllgor yn gofyn i chi roi sylw dyladwy i'w gasgliadau cyffredinol fel a ganlyn: -

**<u>Y Gofrestr Sefydlog</u>**

1. Fe fyddem yn atgoffa Aelodau yn benodol i sicrhau bod eu cyfeiriadau a’u daliadau tir wedi'u disgrifio'n glir yn adran 1.6 y gofrestr. Os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn unrhyw dir, dylent nodi 'Dim' neu 'Dim Diddordebau' ar y gofrestr.

2. Mae hefyd yn bwysig bod Aelodau'n datgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus, elusennau a chymdeithasau cyhoeddus eraill. Dylai aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y sefydliadau / elusennau y maent yn aelodau ohonynt. Dylai'r Aelodau hefyd fanylu ar eu statws yn y sefydliad hwnnw.

3. Mae anghysonderau hefyd o ran aelodaeth o sefydliadau allanol rhwng y rhai a restrir gan y Cyngor a'r rhai a ddatganwyd gan aelodau unigol; nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi ar y ffurflenni er eu bod wedi'u rhestru ar "flaen dudalen" pob Aelod. Mae blaen dudalennau Aelodau i'w gweld yn -

[http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1](http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=650&LLL=1)

4. Pan mae Aelodau'n datgan diddordeb mewn busnes, dylent ddarparu digon o wybodaeth ynghylch yr hyn y mae’r diddordeb busnes yn ei olygu.

5. Atgoffir aelodau o'r gofyniad statudol i ddiweddaru'r Gofrestr Sefydlog o fewn 28 diwrnod i unrhyw newidiadau ddigwydd.

6. Er mwyn lliniaru'r problemau sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r ffurflenni cyn-gofrestru (ddim yn gyfredol / anghyflawn), mae'r Pwyllgor Safonau wedi cwrdd â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth TGCh i'w trafod. Noder y bydd aelod o'r tîm TGCh ar gael am sesiwn galw heibio am awr yn Siambr y Cyngor cyn pob un o'r pedwar cyfarfod cyffredin o'r Cyngor am y 12 mis nesaf. Cynhelir y sesiwn galw heibio gyntaf yn Lolfa’r Aelodau fore Ddydd Mawrth, Mai 15fed 2018 rhwng 9.30yb a 10.30yb. Yn ystod y sesiwn, gallwch fanteisio ar hyfforddiant pellach ar sut i ddiweddaru'r ffurflenni ar-lein. Y gobaith yw y bydd hon yn ffordd o’ch cynorthwyo chi fel Aelodau i gydymffurfio â'ch dyletswyddau statudol yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**<u>Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd</u>**



1. Pan fydd Aelodau'n ticio'r blwch i ddatgan diddordeb, rhaid iddynt hefyd nodi manylion y diddordeb hwnnw. Rhaid i natur y diddordeb ac a yw'r diddordeb hwnnw yn ddiddordeb personol neu’n un sy'n rhagfarnu fod yn amlwg ar y ffurflen.

2. Mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir gan yr Aelodau ynghylch natur y diddordeb a’r modd y mae'n ymwneud â'r eitem ar yr agenda.

3. Os yw'r Aelodau'n ansicr a oes ganddynt ddiddordeb y mae angen ei ddatgan mewn cyfarfodydd, dylent geisio cyngor er mwyn osgoi anghysonderau yn y datganiadau a wneir.

4. Mae aelodau weithiau yn datgan diddordebau ar lafar mewn cyfarfodydd ond nid ydynt yn cwblhau'r gwaith papur. Mae angen cwblhau'r ffurflen ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ym mhob cyfarfod lle datgenir diddordeb o'r fath ar lafar, oherwydd nid yw datganiadau llafar o ddiddordeb yn ddigonol ynddynt eu hunain.

**<u>Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch</u>**

Ychydig iawn o ddatganiadau sy'n cael eu gwneud mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a gwahoddir Aelodau i ail-ymgyfarwyddo eu hunain â’r [Protocol Rhoddion a Lletygarwch]

**<u>Hyfforddiant</u>**

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi sylwi bod nifer o Aelodau wedi methu â mynychu digon o hyfforddiant eleni.

Ar adeg yr adolygiad, nid oedd 5 Aelod wedi mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ers yr etholiad ym mis Mai 2017, er gwaethaf cael eu gwahodd i hyfforddiant o'r fath. Mae hyn yn achosi llawer o bryder. Rwyf wedi cysylltu â'r unigolion hynny yn uniongyrchol.

Roedd y Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn anodd llywio trwy'r wybodaeth berthnasol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddi Aelodau. Felly mae ymholiadau'n parhau o ran gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer mynychu sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd cyrff allanol, a sut y gall y cyhoedd weld y wybodaeth honno.

Gofynnwyd am eglurder hefyd mewn perthynas â'r hyfforddiant cynllunio a’r hyfforddiant diogelu gorfodol y mae'n rhaid i'r Aelodau eu mynychu.

**<u>Aelodaeth a Phresenoldeb ar Gyrff Allanol</u>**

Noder os gwelwch yn dda y gofynnwyd i Arweinyddion Grwpiau fonitro aelodaeth yr Aelodau o gyrff allanol a’u presenoldeb yng nghyfarfodydd y cyrff hynny. Gofynnwyd iddynt hefyd sicrhau bod yr Aelodau'n darparu adborth priodol ar y materion a godwyd ynddynt.



Mae'r canfyddiadau hyn yn nodi casgliadau cyffredinol yr adolygiad. Mae rhai Aelodau unigol wedi derbyn negeseuon e-bost personol gan y Pwyllgor Safonau gydag argymhellion ar gyfer adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth a gyhoeddwyd. Lle ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol, gofynnwyd i rai Aelodau gyfarfod â mi. Yn y llythyrau, rydym wedi gofyn am ymatebion. Lle na dderbyniwyd ymatebion, cofiwch y byddwn yn codi'r mater gyda'ch Arweinyddion Grwp.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eich bod chi i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o dasgau y mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw yw hon. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd yr argymhellion uchod yn cynorthwyo i arbed amser i'r Aelodau oherwydd bydd gwella safon y ffurflenni, gobeithio, yn osgoi beth allai fod yn gwynion di-sail sy’n draul ar amser pawb.

Cofion,

---

Dear Member,

Apart from in 2016/17, when the Standards Committee concentrated its efforts on the Town and Community Councils’ Register of Interests, the Standards Committee conducts an annual review of the Registers in respect of declarations of interests by Members which

are held by the Council. The Standards Committee believe its role is to assist Members to comply with their duties, not to look for errors and we hope that you will find the recommendations from the review helpful.

Thank you for your support and assistance with the review, and for updating your forms where necessary prior to the review being conducted. The information reviewed included:-

- The Standing Register
- Declarations made in meetings
- Gifts & Hospitality Register
- Members Annual Reports
- Agenda and Minutes of Meetings
- Training offered by the Council and each member's Training Record
- Outside Bodies list.

Following this year's review, the Committee asks that you have due regard to its general findings, which are as follows:-



**The Standing Register**

1. We would remind Members specifically to ensure that their addresses and land holdings are clearly described in section 1.6 of the register. If a Member has no interest in land they should enter 'None' or 'No Interest' on the register.

2. It is also important that Members disclose their membership of other public bodies, charities and associations. Members should provide the full name and address of organisations/charities of which they are members. Members should also detail their status within that organisation.

3. There are also inconsistencies in terms of membership of external organisations between those listed by the Council and those declared by individual members; they are not always recorded on the forms although they are listed on every Member's "front page". Members "front page" can be found at - http://democracy.anglesey.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?LLL=0

4. Where Members are declaring a business interest they should provide sufficient information on what the business interest is.

5. Members are reminded of the statutory requirement to update the Standing Register within 28 days of any changes occurring.

6. In order to alleviate the problems which have been identified in relation to the pre-registration forms (being out of date / incomplete), the Standards Committee has met with representatives from the ICT Service to discuss. Please note that a member of the ICT team will be available for an hour's drop-in session in the Council Chamber before each of the four ordinary meetings of the Council for the next 12 months. The first drop-in session will be held in the Members' Lounge between 9.30am and 10.30am on Tuesday 15th May 2018. During the session you can take advantage of further training on how to update the online forms. It is hoped that this is a way of assisting you as Members to comply with your statutory duties in accordance with the Code of Conduct.

**<u>Declaration of interests in meetings</u>**

1. When Members are ticking the box to declare an interest they must also provide details of that interest. Both the nature of the interest and whether that interest is a personal or a prejudicial interest must be evident on the form.

2. Greater clarity is required in respect of the information supplied by Members regarding the nature of the interest and how it relates to the item on the agenda.

3. If Members are unsure as to whether they have a declarable interest in meetings they should seek advice in order to avoid inconsistencies in the declarations being made.

4. Members occasionally declare an interest orally at meetings but do not complete the paperwork. The form needs to be completed for declarations of interest at every meeting where such an interest is declared orally, as oral declarations of interests alone are not sufficient.

**<u>Register of Gifts and Hospitality</u>**

Few declarations are made with regard to gifts and hospitality and Members are invited to re-familiarise themselves with the Protocol of Gifts and Hospitality

**<u>Training</u>**

The Standards Committee has observed that several Members have failed to attend sufficient training this year.

At the time of review, 5 Members had not attended training on the Code of Conduct since the election in May 2017, despite being invited to such training. This causes much concern. I have contacted those individuals directly.

The Standards Committee considered that to navigate through the relevant information, particularly in relation to Members' training, was difficult. Enquiries are therefore ongoing in terms of improving the information available for attendance at training sessions and in meetings of outside bodies, and how that information may be viewed by the public.

Clarity has also been sought in relation to the compulsory planning training and safeguarding training which Members must attend.

**<u>Membership and Attendance on Outside Bodies</u>**

Please note that Group Leaders have been requested to monitor Members' membership and attendance at meetings of outside bodies. They have also been requested to ensure Members are providing appropriate feedback on matters raised therein.

These findings set out the general conclusions of the review. Some individual Members have received personal emails from the Standards Committee with recommendations for review / updating / explaining some of the information which has been published. Where it was considered necessary, some Members have been requested to meet with me. In the letters, we have asked for responses. Where responses have not been received, please be aware that we will be raising the matter with your Group Leaders.

The Committee appreciates that you are all very busy and is aware that this task is only one of a number that you have to address. However, we hope that the above recommendations will assist in saving time for Members as improving the standard of the forms will hopefully avoid what may potentially be groundless and time consuming complaints.

Regards,

Mike Wilson

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee.
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council

**ATODIAD B**

**RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2017 I EBRILL 2018**

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad igan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Dim cyfeiriadau |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig gan Gynghorwyr Sir a chan Gynghorwyr Tref / Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Cais am ganiatâd arbennig gan y Cynghorydd Carwyn Jones; cynhaliwyd cyfarfod ar 18.07.2017. Roedd y caniatâd arbennig ym ymwneud â thri o ddiddordebau personol a oedd gan y Cynghorydd, dau ohonynt yn rhagfarnus, mewn perthynas â strategaeth y Cyngor ar ddyfodol addysg yn y tymor canol a'r tymor hir ar yr Ynys, ac yn benodol yn ward Seiriol. Rhoddwyd y caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Jones ar y telerau a nodwyd yn y cofnodion. Mae'r caniatâd arbennig yn ddilys tan 8 Mai 2022.<br>• Cyflwynwyd cais am ganiatâd cyffredinol gan y Swyddog Monitro ar ran Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ym Mai 2017 neu ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Cyngor hyd at fis Mai 2022, ac fe gynhaliwyd y cyfarfod ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 13.09.2017. Roedd y cais yn ymwneud â’r Is-bwyllgor Indemniadau. Rhyddhawyd yr un caniatâd arbennig ar gyfer yr un mater ac yn yr un ffordd ym mis Medi 2013. Rhoddwyd y caniatâd arbennig a bydd yn weithredol am weddill tymor y Cyngor hwn.<br>• Cais am ganiatâd arbennig gan Gynghorydd Roger Dobson o Gyngor Cymuned Llanbadrig. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 14.03.2018. Roedd y caniatâd arbennig yn ymwneud â diddordeb personol y Cynghorydd sydd hefyd yn rhagfarnus, mewn perthynas ag eiddo y mae’n berchen arno ac agosrwydd yr eiddo hwnnw at safle datblygu Wylfa Newydd. Rhoddwyd y caniatâd arbennig i’r Cynghorydd Dobson ar y telerau a nodwyd yn y cofnodion.<br>Mae’r caniatâd arbennig yn ddilys am weddill tymor y Cynghorydd yn y swydd.<br>• Cyflwynwyd cais am ganiatâd cyffredinol gan y Swyddog Monitro ar ran Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ym Mai 2017 neu ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Cyngor hyd at fis Mai 2022, ac fe gynhaliwyd y cyfarfod ar 14.03.2018. Roedd y cais yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ar ffioedd ysgol. Rhyddhawyd caniatâd arbennig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyffredinol tebyg ar yr un telerau yn 2015. Rhoddwyd y caniatâd arbennig a bydd yn weithredol am weddill tymor y Cyngor hwn, h.y. hyd at fis Mai 2022. |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | • Dim ceisiadau |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd. | • Yn barod ar gyfer Mai 2018 | • Swyddog Monitro | CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:-<br>• Mynychodd aelodau'r Pwyllgor Safonau y sesiynau hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned ar 13.11.17, 15.11.17, 22.11.17, 29.11.17 a 22.3.18.<br><br>AELODAU'R CYNGOR SIR:-<br>• Adolygiad o'r trefniadau cynefino a hyfforddiant ar gyfer aelodau'n dilyn yr etholiad<br>• Mynychodd dau aelod o'r Pwyllgor Safonau y sesiwn gynefino ym mis Tachwedd 2017 ar gyfer aelodau a oedd newydd eu hethol<br>• Cyflwynwyd rhaglen gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ar 14 Medi 2016<br>• Mae rhaglen hyfforddiant wedi cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ar gyfer aelodau<br>• Siarter Datblygu Aelodau – mae'r Cyngor yn cyflwyno cais am ei hadnewyddu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Adolygu'r tair gofrestr o Ddiddordebau Aelodau gan ddarparu unrhyw gyngor neu ganllawiau angenrheidiol yn dilyn hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2018 | • Swyddog Monitro | • Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Ionawr a Chwefror 2018<br>• Anfonwyd llythyrau unigol at rai Aelodau'n dilyn yr adolygiad<br>• Anfonwyd llythyr yn cynnwys y canfyddiadau cyffredinol ar yr holl Aelodau ar 03.05.2018 (copi ynghlwm yn Atodiad 1)<br>• Bydd aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned o'r Pwyllgor Safonau'n cynnal adolygiad o ddiddordebau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau ar 14.05.2018 |
| 6. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Dim cyfeiriadau |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Panel Dethol y Pwyllgor Safonau i benodi aelod annibynnol newydd – gweler 13 isod<br>• Côd Ymddygiad diwygiedig – adolygiad ynghylch a yw'r Cynghorau Tref a Chymuned wedi ei fabwysiadu<br>• Cynhaliwyd adolygiad ynghylch a oes gan y Cynghorau Tref a Chymuned Wefannau<br>• Bydd y Pwyllgor Safonau'n adolygu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyhoeddiad Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | • Strwythur Rheoli – gall staff, aelodau ac aelodau'r Pwyllgor Safonau edrych arno (anfonwyd 24.3.17). Bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br>• Protocol Datrys Anghydfodau yn Lleol – testun adroddiad ar wahân i'r Cyngor ar 15.05.2018 |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2018 | • Cadeirydd | • 15.05.2018 |
| 10. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy: | | • Swyddog Monitro | |
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | • Cyfarfod arferol y Pwyllgor | | • Cyflwynwyd ar 13.09.2017 a 14.03.2018 i'r Pwyllgor Safonau. Cyhoeddwyd ar gyfer y Cyngor Sir ar 27.11.2018 ac ar 23.03.2018 i'r Cynghorau Tref a Chymuned |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Dwywaith y flwyddyn | | • 24.11.17 – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.<br>• Trefnir y cyfarfod nesaf gan Gyngor Sir Gwynedd ar 29.06.2018 |
| | - Cymryd rhan a gwneud | • Unwaith pob | | • Dim cynhadledd 2017/2018 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | dwy flynedd – bydd angen gwneud hyn yn 2017/18 | | • Wedi'i threfnu ar gyfer 14.09.2018 yn Aberystwyth (Cyngor Sir Ceredigion yn trefnu) |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | • Unwaith pob dwy flynedd – bydd angen gwneud hyn yn 2018 | | • Cynhaliodd y Cadeirydd broses Adolygu Datblygiad personol, gan gynnwys awr o gyfarfod, gyda phob aelod annibynnol a chynrychiolwyr y Cynghorau Tref / Cymuned ar y Pwyllgor Safonau ar 27.04.2018<br>• Bydd y Cadeirydd yn cael Adolygiad Datblygiad Personol gyda'r Swyddog Monitro<br>• Cynhelir yr ADP nesaf ymhen 2 flynedd, sef 2020 a bydd tymor 4 o'r aelodau annibynnol wedi dod i ben erbyn hynny (yn Rhagfyr 2019) |
| 11. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro<br>• | • Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar 13.09.2017 a 14.03.2018.<br>• Caiff matrics cwynion ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn chwarterol yn Ebrill (Ionawr – Mawrth), Gorffennaf (Ebrill – Mehefin), Hydref (Gorffennaf – Medi) a Ionawr (Hydref – Rhagfyr). Mae'n manylu ar y cwynion a dderbyniwyd a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r cwynion hynny y OGCC yn ymchwilio iddynt mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorau Tref a Chymuned.<br>• Cyflwynwyd adroddiad gan OGCC a chrynodeb o'r Llyfr Achos o gwynion Côd Ymddygiad a dderbyniwyd gan OGCC rhwng Ebrill 2016 ac Ebrill |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2017 i'r Pwyllgor Safonau ar 13.09.2017. Cylchredwyd yr adroddiad i Aelodau'r Cyngor Sir ar 27.11.2017 a 20.3.2018 ac i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar 23.03.2018.<br>• Cyflwynwyd adroddiad pellach gan OGCC a chrynodeb o'r Llyfr Achos o gwynion Côd Ymddygiad a dderbyniwyd gan OGCC rhwng Gorffennaf a Tachwedd 2017 i'r Pwyllgor Safonau ar 14.03.2018.<br>• Cyflwynwyd adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o natur y cwynion a gyfeiriwyd at OGCC / tueddiadau presennol i'r Pwyllgor Safonau ar 13.09.2017 (eitem 4). Bydd hwn yn adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Safonau. |
| 12. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | • 5.10.2017<br>• 8.11.2017<br>• 25.01.2018<br>• 26.04.2018 |
| 13. | Penodi aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau | • Cyn gynted ag sy'n bosibl | • Swyddog Monitro<br>• Pwyllgor Safonau<br>• Panel Dethol | • Cyfarfu Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 20.09.2017 i gymeradwyo hysbysebu swyddog wag ar gyfer Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau<br>• Cyfarfu Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 17.11.2017 i dynnu rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer eu cyfweld ar 27.11.2017<br>• Yn dilyn y cyfweliadau, enwebodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgeisydd ar gyfer ei benodi ar y Pwyllgor Safonau ac roedd Cadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau yn bresennol i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus ac yn argymell bod yr ail ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael ei phenodi'n awtomatig petai unrhyw swydd wag achlysurol arall yn codi ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y 12 mis nesaf.<br>• Yn ei gyfarfod ar 12.12.2017, penderfynodd y Cyngor llawn benodi <u>Mr John Robert Jones</u> yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau ar unwaith; a phetai swydd wag achlysurol arall yn codi yn ystod y 12 mis nesaf, cytunwyd y dylai Ms Sarah Laing Gibbens gael ei phenodi'n awtomatig heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn y penodiad.<br><br>Bydd y penodiad yn parhau hyd at 11 Rhagfyr 2025. |
| 14. | Penodi dau aelod o'r Cynghorau Tref a chymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau | • Yn dilyn yr etholiad ym Mai 2017 | • Swyddog Monitro | • Yn ei gyfarfod ar 12.12.2017, penderfynodd y Cyngor llawn benodi'r <u>Cynghorydd Iorwerth Roberts</u> o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r <u>Cynghorydd Keith Roberts</u> o Gyngor Cymuned Bae Trearddur. |



CC-019486-MY(437648)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd y penodiadau hyn yn parhau am y cyfnod hyd at yr etholiad llywodraeth leol nesaf neu hyd at gyfnod pan nad yw'r aelodau a benodwyd yn aelodau mwyach o Gyngor Cymuned, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf. |
| 15. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol fel mater o drefn:<br>• Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>• Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>• Safonau ymddygiad Aelodau | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | • Adroddir yn chwarterol |

**ATODIAD C**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2018 I EBRILL 2019

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad igan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig gan Gynghorwyr Sir a chan Gynghorwyr Tref / Cymuned | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd. | • Yn barod ar gyfer Mai 2019 | • Swyddog Monitro | |
| 5. | Adolygu sampl o'r Cofrestrau o Ddiddordebau'r Aelodau fel y cânt eu cadw gan y cynghorau tref a chymuned gan roddi unrhyw gyngor a chanllawiau angenrheidiol wedi hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | |



CC-019486-MY(437650)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd y bydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2019 | • Cadeirydd | |
| 10. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy: | | • Swyddog Monitro | |
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan:<br>○ awdurdodau perthnasol eraill | • Cyfarfod arferol y Pwyllgor | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ○ Panel Dyfarnu Cymru | | | |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Dwywaith y flwyddyn | | |
| | - Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | • 14.09.2018 | | |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu perfformiad yn debyg i hwnnw a ddefnyddir gan yr aelodau etholedig | • Unwaith pob dwy flynedd – bydd angen gwneud hyn yn 2020 | | |
| 11. | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu cyflwyno i OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | |
| 12. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | • Fel a phryd y bydd angen | • Y Cadeirydd | |
| 13. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol fel mater o drefn:<br>• Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol | • Yn chwarterol | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>• Safonau ymddygiad Aelodau | | | |
| 14. | Adolygu'r system fel y gall Aelodau ddarparu adborth o'r Cyrff Allanol y maent wedi cael eu penodi arnynt a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan y Cyngor i fedru gwneud hyn. Ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas â'r Cyrff Allanol hyn, e.e. Rhaglenni a Chofnodion y cyfarfodydd hynny. | • Erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | |
| 15. | Cychwyn y broses o recriwtio 4 o aelodau annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau i gymryd lle aelodau'r pwyllgor y daw eu tymor i ben yn Rhagfyr 2019. Y nod fyddai i'r aelodau hynny fynychu'r cyfarfod ffurfiol diwethaf o'r Pwyllgor Safonau a gynhelir yn ystod tymor yr aelodau cyfredol ym mis Medi 2019. | • Y broses i ddechrau erbyn diwedd Ebrill 2019 | • Swyddog Monitro | |



CC-019486-MY(437650)

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau ar y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

**A CEFNDIR**

1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau adroddiad i'r Cyngor ar Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2018.

2 Cytunodd y Cyngor i fabwysiadu'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig arfaethedig.

3 Mae copi o'r Protocol Datrysiad Lleol, fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor, ynghlwm i'r Adroddiad hwn yn **Atodiad 1**.

**B DIWEDDARIAD**

1 Ers i'r Cyngor benderfynu derbyn y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig,

1.1 cyhoeddwyd y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar system mewnrwyd y Cyngor (MonITor);

1.2 cyhoeddwyd y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar hyb polisïau mewnol y Cyngor (Porth Polisi);

1.3 anfonwyd e-bost at bob Aelod etholedig a phob aelod o'r Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2018 yn amgáu copi o'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig; a

1.3 gwnaethpwyd ymholiadau ynglŷn â hyfforddiant Cyfryngu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau fel bod modd iddynt weithredu'r Protocol diwygiedig yn ôl yr angen.

## C HYFFORDDIANT CYFRYNGU

1 Darperir sesiwn hyfforddiant hanner diwrnod i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a chynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau ar 18 Medi 2018. Cynhelir yr Hyfforddiant yn Ystafell Gyfarfod Cemlyn, Canolfan Fusnes Bryn Cefni, Llangefni am 1pm. Darperir copi o'r rhaglen arfaethedig yn **Atodiad 2**.

2 Nid yw cynrychiolwyr Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ar y Pwyllgor Safonau yn derbyn gwahoddiad i'r Hyfforddiant Cyfryngu oherwydd na fydd byth cais iddynt gynorthwyo o dan weithdrefn y Protocol Datrysiad Lleol. Er bod y Protocol Datrysiad Lleol yn **Atodiad 1** wedi'i fwriadu ar gyfer y Cyngor hwn, anogwyd Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol generig a baratowyd ac a ddosbarthwyd gan Un Llais Cymru. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i allu cynorthwyo yn y Cynghorau Tref a Chymuned petaent yn gwneud cais am gymorth o'r fath.

3 Bydd y Pwyllgor Safonau yn derbyn diweddariad ar y sesiwn Hyfforddi yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019.

## D ARGYMHELLION

1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

1.1 nodi cynnwys y Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig sydd bellach wedi'i fabwysiadu (**Atodiad 1**);

1.2 nodi'r diweddariad a ddarperir yn yr Adroddiad hwn; a

1.3 nodi dyddiad, amser a lleoliad (fel y nodir ym mharagraff C1 uchod) yr Hyfforddiant Cyfryngu ar 18 Medi 2018 a manylion y rhaglen yn **Atodiad 2**.

**ATODIAD 1**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL

**Cyffredinol**

1. Pwrpas y Protocol anffurfiol hwn yw:
   - hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad;
   - meithrin a chynnal perthnasau gwaith da ymysg aelodau, a rhwng aelodau a swyddogion;
   - rhoi sylw i gwynion lefel isel ynglŷn ag ymddygiad nad ydynt yn cyrraedd trothwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn perthynas â thystiolaeth a budd cyhoeddus;
   - delio gyda materion sy'n codi cyn gynted â phosib er mwyn osgoi mynd â'r mater ymhellach yn ddiangen;
   - diogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol ond yn berthnasol i achosion o gamymddwyn honedig yn erbyn aelodau o dan ddau baragraff yn y Cod Ymddygiad, sef:
   **4(b)**
   honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill a/neu
   **6(1)(d)**
   honiadau bod aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill.

3. Nid yw'r Protocol yn gymwys i gwynion gan drydydd partïon.

4. Bwriad y Protocol yw ceisio datrys anghydfodau yn gyflym a chymodi'n brydlon drwy broses gyfryngu. Trefniant gwirfoddol ydyw felly mae'n rhaid i'r naill barti a'r llall gytuno i gyfryngu. Nid oes unrhyw sail statudol i'r broses. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i fabwysiadu Protocol o'r fath ond mae Llywodraeth Cymru ac OGCC wedi cynghori'n gryf iawn y dylai Awdurdodau Lleol gael trefniadau o'r fath mewn lle.

5. Nid bwriad y Protocol yw ymyrryd â, neu disodli unrhyw drefniadau disgyblu gan grŵp neu blaid; nac ychwaith drefniadau hunanreoleiddio gan aelodau.

6. Nid bwriad y Protocol yw bwrw allan awdurdodaeth yr Ombwdsmon ond yn hytrach, ei ddiben yw delio gyda chategori cyfyngedig o gwynion na fyddai'n cyrraedd prawf trothwy yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad.

**Y Weithdrefn ar gyfer cynnal cyfarfod cyfryngu**

7. Mae'n rhaid i aelod neu swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol gyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (mae'r ffurflen ynghlwm) yn egluro:
   - pa bryd ac ymhle y digwyddodd y camymddwyn honedig;
   - sut a pham mae'r aelod wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) a/neu 6(1)(d);

8. Mae’n rhaid anfon unrhyw gŵyn ysgrifenedig at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y digwyddiad sy’n destun y gŵyn, neu 14 diwrnod o’r dyddiad y daeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn rhannu’r gŵyn gyda’r aelod sy’n destun y gŵyn.

10. Bydd gan yr aelod sy’n derbyn y gŵyn 14 diwrnod, o’r diwrnod mae’n ei derbyn, i anfon ymateb ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn nodi ei ymateb.

11. Ar ôl derbyn ymateb gan yr aelod y cafwyd cwyn yn ei erbyn/herbyn, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn:-
   - copïo’r ymateb llawn i’r achwynydd;
   - trefnu cyfarfod preifat sy’n gyfleus i’r naill ochr rhwng yr achwynydd a’r aelod sy’n destun y gŵyn ynghyd â dau aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol.

12. Cynhelir y cyfarfod yn breifat.

13. Os nad oes unrhyw ymateb wedi’i dderbyn o dan baragraff 10 uchod, o fewn y cyfnod 14 diwrnod, yna ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal oherwydd mae angen cytundeb y ddwy ochr i’r broses gyfryngu lwyddo.

14. **<u>Cyfarfod Cyfryngu</u>**

14.1 Bydd y “panel” anffurfiol o’r Pwyllgor Safonau yn cynnwys unrhyw ddau aelod annibynnol o’r Pwyllgor, ar sail rota. Ni chaiff aelodau panel y Pwyllgor Safonau ond hwyluso’r cyfarfod cyfryngu  os ydynt wedi derbyn hyfforddiant at y diben hwn.

14.2 Caiff y gwaith papur ei gyfyngu i’r gŵyn gychwynnol a’r ymateb.

14.3 Pwrpas cyfarfod cyfryngu fydd i’r partïon ddod i ddatrysiad y maent yn cytuno arno. Ni fydd aelodau’r Pwyllgor Safonau yn llunio barn na’n gwneud unrhyw ganfyddiadau ond fe allant wneud rhai argymhellion. Ni fydd argymhellion o’r fath yn rhwymol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# FFURFLEN PROTOCOL DATRYS ANGHYDFODAU YN LLEOL -

# I GYCHWYN Y BROSES GYFRYNGU

**A: Eich Manylion**

| Cyfenw: | Enw(au) cyntaf: | Teitl: |
|---|---|---|
| Cyfeiriad a Chod Post: | | |
| Cyfeiriad E-bost: | | |
| Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd: | | |
| Rhif Symudol: | | |

Nodwch ym mha rai o'r ffyrdd uchod yr hoffech i ni gysylltu â chi

---

**B: Ynglŷn â'ch cwyn (parhewch gyda'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r aelod rydych yn cwyno amdanynt:

C.2 Beth ydych chi'n ei feddwl maent wedi'i wneud o'i le?

C.3 Ydych chi'n meddwl eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau a pham?

C.4 Disgrifiwch sut ydych chi wedi cael eich effeithio gan yr ymddygiad sy'n destun eich cwyn

C5. Pa bryd y daethoch yn ymwybodol gyntaf o'r mater sy'n destun eich cwyn?

C.6 Ydych chi eisoes wedi ceisio datrys eich cwyn gydag unrhyw un arall e.e. yr aelod yn uniongyrchol, arweinydd grŵp ac ati? Os ydych, rhowch fanylion cryno os gwelwch yn dda o sut, pa bryd y gwnaethoch, ac unrhyw ganlyniad.

C.7 Beth ydych chi'n ei ddisgwyl ar ddiwedd y broses?

Llofnod: ______________________ Dyddiad: _________________

Pan ydych wedi cwblhau'r ffurflen hon, anfonwch hi at:

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

E-bost: mxwcs@ynysmon.gov.uk

**Nodwch os gwelwch yn dda y bydd copi o'ch ffurflen yn cael ei rhannu gyda'r aelod sy'n destun eich cwyn.**

Rebecca David-Knight,
Centre for Public Scrutiny,
12th June 2018
RDK@PublicGovWales.org.uk

Centre for Public Scrutiny

# Building relationships into the future: Conflict resolution through mediation

## Context

This proposal has been developed to assist effective implementation of the Isle of Anglesey County Council's Local Resolution Protocol via the delivery of bespoke mediation training that is mindful of conflict within political environments.

The proposed content specifically aims to address the key functions of the informal Protocol which is to promote high standards of conduct, to foster and maintain positive working relationships between Members, to avoid unnecessary escalation of issues, and to safeguard the Council's reputation.

## What is the purpose of the training seminar?

The purpose of the training is to equip independent members of the Council's Standards Committee with the knowledge, skills and techniques necessary to assist Members resolve conflict through facilitated communication.

## Learning Objectives

Through engagement in the learning seminar, participants will be equipped to:

- Understand the pre-mediation process in Anglesey including the development of a strategy for co-mediation with colleagues before the mediation meeting takes place.

- Understand ethical issues related to mediation, particularly as it relates to confidentiality, self-determination, and voluntary participation.

- Develop self knowledge of mediator's conflict styles, history, and attitudes and how their personal experience may influence their aptitude for or approach to conflict resolution.

- Use enhanced verbal and non-verbal communication skills to ascertain greater insight into the dynamics of the conflict and reveal underlying interests.

- Explore and analyze the issues of the conflict sufficiently to be able to summarize parties' positions, related feelings, and underlying interests.

- Assist Members to develop agreements that are perceived as sufficiently fair as to achieve voluntary compliance that fosters or maintains positive working relations.

## Content Overview

### Part 1 – An Introduction to Mediation

- Definitions of mediation and conflict resolution

- Exploring qualities of a mediator in a local government setting
- Skills needed for effective mediation
- Values underlying mediation
- Co-mediation and teamwork

**Part 2 – Exploring Emotion and Conflict: Building Trust and Credibility with Members**

- Managing anger in mediation
- Understanding and encouraging empathy
- Active listening; learning from the Samaritans' 'Listening Wheel'
- Using emotional intelligence to understand 'positions' and 'interests'

**Part 3 – The Mediation Process in Anglesey**

- Preparatory work; analysing conflict and understanding 'ripple effects' in political environments
- Establishing ground rules
- Ensuring each side tells 'their story'; validation prevents escalation
- Evaluating ideas for resolution (building on pre-mediation meeting preparatory work)
- Strategies for negotiating solutions
- Follow up to build relationships into the future – options for resolution

**Methods of delivery**

A multi-method approach will be taken which will involve the use of discursive presentations, role play and real-life anonymised case studies.

The learning seminar would be delivered by Rebecca David-Knight, Lead Consultant for Wales – Centre for Public Scrutiny.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Nodyn Cyngor ar Fethodoleg yr Adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig a chyfetholedig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cadarnhau'r Nodyn Cyngor drafft fel cynsail i'w rannu pan fydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau yn y dyfodol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## A CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cwblhau adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig a chyfetholedig Cyngor Sir Ynys Môn rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018, fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2017/2018.

2 Mewn paratoad ar gyfer yr adolygiad hwnnw, darparwyd canllawiau i aelodau'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r hyn yr oedd gofyn iddynt ei ystyried a sut i adrodd y wybodaeth fel bod modd darparu llythyr cyngor generig i'r holl aelodau yn manylu ar arferion da a'r gwelliannau sydd eu hangen.

3 Darparwyd y canllawiau drwy gyfrwng adroddiad i'r Pwyllgor ar 13 Medi 2017.

4 Penderfynwyd y byddai Nodyn Cyngor, sy'n rhoi manylion am (a) dogfennau i'w hadolygu, (b) beth sydd angen ei ystyried o fewn y dogfennau hynny a (c) sut i gofnodi canfyddiadau, yn ddefnyddiol. Er na fydd yn cael ei ddefnyddio ar unwaith, bydd yn ddefnyddiol ar gyfer adolygiadau o gofrestrau diddordebau aelodau yn y dyfodol.

## B NODYN CYNGOR

1 Mae copi o'r Nodyn Cyngor a baratowyd yn **Atodiad 1**.

2 Mae’r Nodyn Cyngor yn manylu ar y dogfennau i’w hadolygu, sut i adolygu’r dogfennau hynny a sut i adrodd ar y canfyddiadau. Yn ogystal, mae’r Nodyn yn cynnwys dolenni i’r dogfennau amrywiol y cyfeirir atynt.

3 Rhagwelir, petai’r Pwyllgor Safonau yn penderfynu cynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau rhywbryd yn y dyfodol, y bydd y Nodyn Cyngor yn cael ei rannu gyda hwy fel bod yr holl aelodau’n cynnal adolygiad cyffelyb, sydd yn decach i’r rhai y mae eu Cofrestrau’n cael eu hadolygu gan y bydd y broses yn un gyson.

**C ARGYMHELLIAD**

1 Gofynnir i’r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys y Nodyn Cyngor drafft yn **Atodiad 1** a chadarnhau ei fod yn cymeradwyo’r Nodyn Cyngor hwnnw.

2 A yw’r Pwyllgor Safonau yn dymuno i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfod gydag Arweinyddion Grwpiau er mwyn trafod cynnwys **Atodiad 1**?

# PWYLLGOR SAFONAU: ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG A CHYFETHOLEDIG – NODYN CYNGOR AR FETHODOLEG

Gofynnwyd i chi gynnal adolygiad o Gofrestrau Diddordebau aelodau etholedig a chyfetholedig. Paratowyd y nodyn hwn er mwyn eich cynorthwyo gyda'r broses honno drwy fanylu ar y dogfennau sydd angen eu hadolygu, y math o wybodaeth y bydd angen i chi ei chasglu drwy edrych ar y dogfennau hynny a'r dull ar gyfer adrodd ar eich canfyddiadau.

## A. DOGFENNAU I'W HADOLYGU

Y dogfennau i'w hadolygu yn ystod yr ymarferiad hwn yw :-

### 1. Y Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau

- Mae'r gyfraith a Chod Ymddygiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sy'n pleidleisio ddatgan a chofnodi diddordebau personol.
- Mae'r Gofrestr Sefydlog o Ddiddordebau ar gael ar-lein ar gyfer pob Aelod yn Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sy'n pleidleisio – datganiadau diddordeb
- Wrth adolygu'r Gofrestr Sefydlog, bydd rhaid i chi ystyried hefyd y rhestr o aelodau o gyrff allanol, fel y caiff ei gofnodi gan y Cyngor ar gyfer pob Aelod, a thudalen bywgraffiad yr aelod er mwyn croesgyfeirio'r rhain gyda'r wybodaeth y mae'r Aelod wedi'i gynnwys ar ei Gofrestr Sefydlog.

### 2. Y Gofrestr o Ddatganiadau o Ddiddordeb mewn Cyfarfodydd

- Mae'r Gofrestr hon yn cynnwys ffurflenni papur sy'n cael eu cwblhau gan bob Aelod sy'n datgan naill ai ddiddordeb personol neu ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem a drafodwyd mewn cyfarfod. Gallwch ofyn am gopïau papur llawn o 'Ffurflenni Datganiadau mewn Cyfarfodydd' drwy gysylltu â'r Adain Bwyllgorau.
- Mae'r wybodaeth a gofnodwyd ar y ffurflenni'n cael ei chopïo i dudalen bywgraffiad yr Aelod perthnasol a'i chynnwys o dan y pennawd "Mwy o wybodaeth am y cynghorydd yma" drwy glicio ar "Datganiadau mewn cyfarfodydd". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.
- Yna, bydd angen i chi groesgyfeirio'r wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad gyda Chofnodion y cyfarfod perthnasol. Gellir dod o hyd i'r cofnodion yma.

### 3. Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch

- Mae'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer pob Aelod ar gael ar-lein i'r cyhoedd ei harchwilio.
- Mae'r Pwyllgor Safonau wedi paratoi a chylchredeg nodyn briffio i Aelodau ynglŷn â chwestiynau a ofynnir yn aml am roddion a lletygarwch a dylech ei ddarllen er mwyn eich cynorthwyo gyda'r adolygiad.

### 4. Cofnodion Hyfforddi Aelodau

- Mae'r adain Adnoddau Dynol yn cadw ac yn cynhyrchu'r cofnod.
- Yn ogystal, mae gofyn i Aelodau gwblhau cofnod ar-lein o'r holl ddigwyddiadau Hyfforddi a fynychwyd ganddynt. Mae'r wybodaeth hon ar dudalen bywgraffiad yr Aelod perthnasol ac wedi'i chynnwys o dan y pennawd "Mwy o wybodaeth am y cynghorydd yma" drwy glicio ar "Hyfforddiant". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.

### 5. Adroddiadau Blynyddol

- Aelodau etholedig yn unig sy'n paratoi adroddiadau blynyddol.

- Mae dolen i Adroddiad Blynyddol pob Aelod wedi'i chynnwys ar dudalen bywgraffiad yr Aelod o dan y pennawd "Gwybodaeth ychwanegol" drwy glicio ar "Adroddiadau Blynyddol Aelodau". Bydd angen i chi adolygu'r adran hon ar gyfer pob Aelod.

## B. BETH SYDD ANGEN EI ADOLYGU?

### 1. <u>Y Gofrestr Sefydlog</u>

1.1 Mae angen cwblhau'r Gofrestr hon o fewn 28 diwrnod i'r aelod gael ei ethol ac yna ei diweddaru (ar-lein) pan ac os bydd newidiadau'n digwydd. Anfonir llythyr blynyddol at bob Aelod i'w hatgoffa o'r gofyniad yn y Cod Ymddygiad sy'n disgwyl i Aelodau ddiweddaru'r Gofrestr hon o fewn 28 diwrnod o unrhyw newid perthnasol i'r diddordebau perthnasol.
→ Gwiriwch pryd cafodd y Gofrestr ei diweddaru ddiwethaf.

1.2 Rhaid i Aelodau sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chynnwys ynghylch Rhan 1 – Diddordebau Ariannol. Er enghraifft, a yw'r disgrifiad o dir/eiddo y mae gan yr Aelod ddiddordeb ynddo yn ddigon clir i alluogi'r cyhoedd i nodi'r lleoliad?
→ Gwiriwch fod yr adran hon wedi'i chwblhau'n foddhaol. A oes unrhyw beth yn aneglur?

1.3 Yn ogystal, rhaid i'r Aelodau sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei gynnwys yn Rhan 2 - Diddordebau Eraill. Mae angen nodi enw'r corff / sefydliad yn llawn (dim byrfoddau) ac mae'n rhaid cwblhau'r golofn ar y dde (gan nodi statws yr unigolyn ar y corff hwnnw) hefyd.
→ Gwiriwch fod yr adran hon wedi'i chwblhau'n foddhaol. A oes unrhyw beth yn aneglur? A ddefnyddiwyd byrfoddau?

1.4 Rhaid i aelodau sicrhau eu bod yn rhoi llinell drwy flychau amherthnasol neu eu bod yn ysgrifennu "dim", "na", "amherthnasol".
→ Gwiriwch nad oes unrhyw flwch yn cael ei adael yn wag – naill ai mae angen gwybodaeth sylweddol neu gadarnhad nad oes angen cynnwys gwybodaeth yn yr adran honno.

1.5 Dylai'r rhestr o aelodau o gyrff allanol, a gofnodir gan y Cyngor ar gyfer pob Aelod, (mae'r ddolen i'r rhestr hon yn A1 uchod) fod yr un peth â'r hyn sydd wedi'i gynnwys gan yr Aelod ar ei Gofrestr Sefydlog
→ Gwiriwch a oes unrhyw anghysondebau rhwng y rhestr sy'n cael ei darparu gan y Cyngor a'r rhestr y mae'r Aelod wedi'i chynnwys ar y Gofrestr.

1.6 Dylai'r wybodaeth berthnasol sy'n ymddangos ar Gofrestr Diddordebau'r Aelod fod yr un fath â'r wybodaeth ar dudalen bywgraffiad yr Aelod.
→ A oes unrhyw wybodaeth ar dudalen bywgraffiad yr Aelod nad yw'n cyfateb â'r wybodaeth ar ei Gofrestr Sefydlog ef/hi?

### 2. <u>Y Gofrestr Datgan Diddordebau mewn Cyfarfodydd</u>

2.1 Yn gyffredinol, ac fel mater o egwyddor, dylai'r ffurflenni datganiad papur (a gedwir gan yr adain Pwyllgorau ar ôl iddynt gael eu llenwi gan yr Aelod) sefyll ar eu pen eu hunain er mwyn i'r cyhoedd ddeall y diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar y rhaglen, y cysylltiad â'r eitem honno, ac a yw'n ddiddordeb personol neu'n ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu, sy'n golygu fod rhaid i'r Aelod adael y cyfarfod o ganlyniad.
→ Gwiriwch a gafodd y ffurflen ei llenwi'n gyflawn ac mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i unrhyw un sy'n ei darllen (h.y. aelodau o'r cyhoedd sydd ddim yn meddu ar wybodaeth neu arbenigedd penodol mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad a'i ofynion)?
→ A oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar y Rhaglen?

2.2 A oes unrhyw arwydd bod yr Aelodau yn cael anhawster i wahaniaethu rhwng datgan diddordebau personol (lle y byddai hawl ganddynt i aros yn y cyfarfod) a datgan diddordebau personol sy'n rhagfarnu (lle mae'n ofynnol iddynt adael y cyfarfod)? Neu a yw Aelodau'n datgan diddordebau yn ddiangen ac yn rhy ofalus?
→ Ystyriwch, ar sail y ffeithiau y mae'r Aelod wedi'u datgan / y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen, Adroddiadau, Cofnodion, a oedd y datganiad yn bersonol neu'n bersonol a rhagfarnus. A yw eich barn yn debyg i'r hyn a fynegodd yr Aelod?

2.3 Adolygwch y Cofnodion ar gyfer y cyfarfod lle y gwnaed y datganiad i ganfod a yw'r Cofnodion hynny'n cadarnhau'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y ffurflen bapur.
→ Gwiriwch fod y Cofnodion yn cadarnhau (a) bod datganiad o ddiddordeb wedi'i wneud, (b) a oedd y diddordeb hwnnw yn bersonol neu'n bersonol a rhagfarnus, a (c) os yw'n rhagfarnus, bod yr Aelod wedi gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.

2.4 → A oes unrhyw enghreifftiau ble mae Aelodau wedi datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ond wedi anghofio llenwi'r ffurflen datgan diddordeb mewn cyfarfodydd?

2.5 → Ydych chi'n dymuno awgrymu unrhyw newidiadau i'r ffurflen datgan diddordeb mewn cyfarfodydd er mwyn cynorthwyo Aelodau neu ei gwneud yn fwy eglur a/neu tryloyw i'r cyhoedd?

3. **<u>Y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch</u>**

3.1 Rhaid gwneud datganiadau o fewn 28 diwrnod i dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n uwch na'r terfyn o £20. Gofynnir i chi adolygu'r cofrestriadau er mwyn penderfynu a ydynt yn cydymffurfio â gofyniad y Cod / y wybodaeth a geir yn y nodyn briffio (y cyfeirir ato yn A3 uchod).
→ Gwiriwch a yw'r Aelod wedi cynnwys digon o wybodaeth am yr eitem?
→ A yw'r Aelod wedi cofrestru'r rhodd/lletygarwch a dderbyniwyd mewn modd amserol?
→ Allwch chi awgrymu unrhyw welliannau neu gyngor pellach sydd angen ei ddarparu i'r Aelodau mewn perthynas â rhoddion/lletygarwch?

4. **<u>Cofnodion Hyfforddiant Aelodau</u>**

4.1 Adolygwch y cofnod papur a ddarperir gan Adnoddau Dynol a'i gymharu â'r wybodaeth ar dudalen fywgraffiad yr Aelod.
→ A yw'r wybodaeth yn y ddau yn gyson?

4.2 → Ystyriwch faint o sesiynau hyfforddi y mae'r Aelod wedi'u mynychu o gymharu â nifer y sesiynau y gwahoddwyd ef/hi i'w mynychu.

4.3 → A oes sesiynau hyfforddi penodol y mae'r Aelod wedi methu â'u mynychu sy'n achosi pryder penodol?

5. **<u>Adroddiadau Blynyddol</u>**

5.1 → A yw'r Aelod wedi llunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod perthnasol?

5.2 → A yw'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyflawn? A yw'n cydymffurfio â'r wybodaeth a gofnodir ar gyfer yr Aelod yn rhywle arall e.e. rhestr aelodau o gyrff allanol, cofnod hyfforddiant ayb.

## C. ADRODD AR EICH CANFYDDIADAU

1. Awgrymir eich bod yn adrodd ar eich canfyddiadau drwy ddefnyddio tabl gyda'r penawdau a ganlyn:

| ADOLYGYDD | AELOD | COFRESTR SEFYDLOG DATGAN DIDDORDEB | DATGANIADAU MEWN CYFARFODYDD | RHODDION A LLETYGARWCH | HYFFORDDIANT | ADRODDIAD BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

2. Y wybodaeth a gaiff ei chynnwys o dan bob pennawd fydd yr 'atebion' i'r cwestiynau hynny a ofynnwyd yn B uchod, wrth ystyried y dogfennau y cyfeirir atynt yn A uchod.

3. Cewch gynnwys unrhyw wybodaeth / sylwadau pellach nad ydynt wedi'u crybwyll neu y cyfeiriwyd atynt yn y Nodyn Cynghori hwn. Paratowyd y nodyn hwn ar ffurf canllawiau yn unig ac nid yw wedi'i gynllunio i gyfyngu ar y modd yr ydych yn cynnal yr adolygiad.

4. Os, yn dilyn cynnal yr adolygiad, yr ydych angen gwybodaeth neu fanylion pellach, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Aelod perthnasol ar bob cyfrif.

Paratowyd gan y Swyddog Monitro
Awst 2018

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Nodyn Briffio i Aelodau – Rhoddion a Lletygarwch** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd i'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â Nodyn Briffio diwygiedig drafft i Aelodau ar Roddion a Lletygarwch** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

A) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 yn nodi fod rhaid i Aelodau "o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno".

B) Mae Cyfansoddiad y Cyngor hwn yn cynnwys cymal sy'n adlewyrchu'r gofyn hwn (paragraff 17).

C) Mae adran 5.9 y Cyfansoddiad yn cynnwys Protocol Rhoddion a Lletygarwch, sy'n darparu gwybodaeth i gynorthwyo Aelodau i benderfynu pryd y mae'n briodol ac yn ofynnol i gofrestru o dan y Côd Ymddygiad

D) Mae'r gofrestr ar gael i Aelodau ei chwblhau ar-lein gan ddefnyddio'r ffurflen yn http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2012/01/10/cyfansoddiad-5-ffurflen-rhoddion.pdf Bydd Aelodau'n nodi nad yw'r hyn sy'n ymddangos ar y wefan ar y ffurf y gofynnodd y Pwyllgor Safonau amdano (ar yr un ffurf â'r ffurflen ei hun). Nid oedd yn bosib i'r Cyngor fabwysiadu'r ffurf honno oherwydd cyfyngiadau'r system ei hun / y gost o addasu'r system er mwyn cynnwys yr hyn y gofynnodd y Pwyllgor Safonau amdano.

E) Pwrpas y Gofrestr yw sicrhau nad yw unrhyw weithredoedd/penderfyniadau a wneir gan Aelodau, yn eu rôl fel Cynghorwyr, yn cael eu dylanwadu gan ffafriaeth, neu

ffafriaeth dybiedig, nid yn unig yn codi o ddiddordebau personol, ond hefyd o ganlyniad i unrhyw rodd/lletygarwch a dderbyniwyd gan bartïon â diddordeb.

F) Yn ystod adolygiad diweddar o Gofrestrau Diddordebau Aelodau gan y Pwyllgor Safonau, unwaith eto nodwyd mai ychydig iawn o gofnodion a gofrestrwyd yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer pob Aelod. Mae'n bosib mai'r rheswm am hyn yw nad oes dim i'w ddatgan. Fodd bynnag, gallai fod oherwydd nad yw Aelodau'n deall y gofyniad iddynt gofrestru, yn unol â'r Côd Ymddygiad. Nododd Aelodau'r Pwyllgor Safonau a fu'n ystyried Cofrestrau Rhoddion a Diddordebau'r Awdurdodau eraill fod llai o gofnodion yn cael eu gwneud gan Aelodau'r Awdurdod hwn.

G) Cyhoeddwyd Nodyn Briffio ar Roddion a Lletygarwch ar gyfer Aelodau yn y gorffennol, ond, yn dilyn ei adolygu, penderfynwyd ei fod yn rhy gymhleth ac nad yw'n cynnwys digon o enghreifftiau ymarferol.

H) Paratowyd Nodyn Briffio newydd ac mae copi ohono wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. Y gobaith yw y bydd yn cynorthwyo Aelodau i ddeall y gofyniad i gofrestru rhoddion a lletygarwch y maent yn eu derbyn yn eu rôl fel Cynghorwyr. Bwriad y Nodyn Briffio yn **Atodiad 1** yw disodli yn hytrach nag ychwanegu at y Nodyn Briffio presennol.

## 2. ARGYMHELLION

I'r Pwyllgor

1. Nodi cynnwys y Nodyn Briffio diwygiedig drafft yn **Atodiad 1** a chadarnhau y dylid ei fabwysiadu.

2. Cytuno y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyflwyno'r Nodyn Briffio yn **Atodiad 1** i gyfarfod o Arweinwyr y Grwpiau; a

3. Cadarnhau y gellir dosbarthu'r Nodyn Briffio diwygiedig yn **Atodiad 1** i'r holl Aelodau yn enw'r Pwyllgor Safonau.

# RHODDION A LLETYGARWCH -
# NODYN BRIFFIO AR GYFER AELODAU

---

## Cefndir

Un o ofynion y Cod Ymddygiad yw bod Aelodau'n cofrestru'r holl roddion a lletygarwch a dderbynnir, ac y gwyddys neu yr amcangyfrifir eu bod yn werth **£20.00 neu fwy**, yn y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch, o fewn 28 diwrnod o'u derbyn. Mae'r Cod yn ymwneud â rhoddion ac / neu letygarwch a dderbynnir gan Aelodau yn rhinwedd eu swyddogaeth broffesiynol fel Aelodau'r Cyngor yn unig (ac nid mewn capasiti personol).

Yn adran 5.9 y Cyfansoddiad, ceir Protocol ar Roddion a Lletygarwch, a ddyfeisiwyd gan y Pwyllgor Safonau i gynorthwyo'r Aelodau i benderfynu pryd y mae'n briodol cofrestru rhoddion a lletygarwch.

Paratowyd y Nodyn Briffio hwn fel adnodd ychwanegol i gynorthwyo'r Aelodau i sicrhau cydymffurfiaeth trwy ddarparu cyngor ymarferol ar eu cyfer.

## Pwrpas y Gofrestr a'r broses gofrestru

Bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi mai pwrpas y Gofrestr yw sicrhau nad yw unrhyw gamau / penderfyniadau a gymerir ac a wneir gan Aelodau, yn rhinwedd eu swyddogaeth broffesiynol fel Aelodau, yn cael eu dylanwadu gan ffafriaeth, neu'r canfyddiad o ffafriaeth ac nid yn unig y rhai a geir yn sgil cysylltiadau personol, ond hefyd unrhyw rodd neu letygarwch a dderbyniwyd gan bartïon â diddordeb. Os yw Aelod yn derbyn rhodd neu letygarwch sy'n uwch na'r trothwy, bydd yr eitem yn cael ei chofrestru yn y Gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd, ac o'r herwydd **bydd yn ofynnol i'r Aelod ddatgan diddordeb personol ar sail y cofrestriad hwnnw pe bai mater yn codi yn y dyfodol mewn perthynas â'r parti a roddodd yr anrheg neu a ddarparodd y lletygarwch.**

Felly, er enghraifft, mae Aelod yn mynychu digwyddiad gyda datblygwr er mwyn cael gwybodaeth a gofyn cwestiynau ynglŷn â datblygiad arfaethedig, ac wrth wneud hynny, mae'r Aelod yn derbyn lletygarwch yn y digwyddiad hwnnw sy'n werth mwy na'r trothwy, ac o'r herwydd **rhaid** ei gofnodi yn y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn. Os bydd raid i'r Aelod wneud penderfyniad wedyn mewn perthynas â'r datblygiad, yna dylai'r Aelod hefyd ddatgan y lletygarwch hwnnw fel diddordeb personol yn y cyfarfod lle bydd y mater yn cael ei drafod / ei benderfynu. Rhaid cwblhau'r ffurflen datganiad o ddiddordeb mewn cyfarfodydd hefyd.

O dan yr amgylchiadau hyn byddai'n cyfateb i ddiddordeb personol yn unig; ni fyddai'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu, felly byddai'r Cynghorydd yn cael cymryd rhan lawn yn y drafodaeth. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw bod y broses o wneud penderfyniad yn gwbl dryloyw; ni ddylai'r ffaith fod Cynghorydd wedi derbyn lletygarwch priodol a chymesur yng nghyd-destun busnes y Cyngor ei atal rhag gwneud penderfyniadau a chymryd

rhan lawn yn y broses. Wrth gwrs, gall cyfres wahanol o ffeithiau fod â chanlyniad gwahanol; mae angen ystyried pob sefyllfa yn ôl y ffeithiau sy'n berthnasol iddi.

**Byddwch yn ofalus ...** Dylech bob amser gofio bod derbyn llwgrwobr yn drosedd. Os profir bod unrhyw rodd, gwobr neu fantais a dderbyniwyd gennych wedi cael ei roddi fel cymhelliad i wneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â mater neu drafodiad penodol, yna gall fod yn drosedd, a bydd y cyfrifoldeb arnoch chi i brofi nad ydych wedi gweithredu'n anonest. Os oes gennych bryder bod amodau neu "linynnau ynghlwm" wrth unrhyw rodd neu letygarwch, yna dylech wrthod y cynnig a rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am y mater ar unwaith.

### ➔ RHODDION

Gall "rhodd" fod yn eitem wirioneddol (nwyddau) neu'n brofiad (gwasanaethau) e.e. tocynnau theatr, tocynnau cyngerdd, gwahoddiad i ddigwyddiad chwaraeon ac ati, a dderbynnir yn rhad ac am ddim neu a roddwyd am bris gostyngol neu fynediad am ddim i ddigwyddiad heb docyn. Gall hefyd fod yn gyfle nad yw ar gael i'r cyhoedd.

Ni ddylech dderbyn rhoddion personol:

(a) yn rhinwedd eich swyddogaeth fel Aelod o'r Cyngor Sir (nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gadw cofrestr gyfatebol ar gyfer eu Haelodau nhw); a

(b) lle rydych chi'n gwybod, neu'n rhesymol yn amcangyfrif, bod y rhodd yn werth £20 neu fwy.

Efallai y bydd derbyn pen ysgrifennu, dyddiadur ac ati yn briodol oherwydd gwerth isel y cynnyrch a roddir. Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus pan fyddwch yn derbyn cyfres o anrhegion bychan / anrhegion o werth isel iawn o'r un ffynhonnell, yn ystod cyfnod byr, nad yw cyfanswm eu gwerth yn fwy na £20 y flwyddyn. Dylid cofnodi unrhyw gyfres o anrhegion o'r fath.

### ➔ LLETYGARWCH

Mae geiriau eraill ar gyfer lletygarwch yn cynnwys 'croeso' a 'haelioni'. Bydd lletygarwch fel arfer yn cynnwys bwyd neu ddiod a ddarperir ar eich cyfer yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol. Gallai hefyd gynnwys darparu adloniant, teithio neu lety yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol ac mae felly'n cynnwys tocynnau neu dalebau.

Yn aml gall digwyddiadau sy'n cynnwys lletygarwch fod yn briodol ac yn llwyddiannus o ran hyrwyddo buddiannau'r Ynys ond mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol o ganfyddiad pobl eraill wrth dderbyn lletygarwch. **Dylai aelodau fodloni eu hunain fod lefel y lletygarwch a ddarperir yn gymesur â natur a phwysigrwydd unrhyw faterion a drafodir mewn digwyddiad o'r fath, neu y dylai fod yn gymesur â phwrpas y digwyddiad e.e. hyrwyddo'r Ynys.**

Rhaid i unrhyw letygarwch a dderbynnir:

(a) gennych yn rhinwedd eich swyddogaeth fel Aelod o'r Cyngor Sir (nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gadw cofrestr gyfatebol ar gyfer eu Haelodau); a

(b) os ydych chi'n gwybod, neu'n rhesymol amcangyfrif, bod y lletygarwch yn werth £20 neu fwy, mae'n rhaid i chi ei gofrestru yn y Gofrestr Anrhegion a Lletygarwch.

Nid oes angen datgan lletygarwch a ddarperir neu a noddir gan Gyngor Sir Ynys Môn i Aelod. Byddai enghraifft yn cynnwys teithio i ddigwyddiadau a gynhelir gan eraill neu fynychu digwyddiadau a gynhelir gan y Cyngor. Fodd bynnag, pan mae swyddog yn gweithredu fel 'person canol' yn unig yn y broses weinyddol o drosglwyddo tocyn gan y trefnydd i'r Aelod, mae'r rhwymedigaeth i gofrestru yn parhau os yw'n werth mwy na'r trothwy.

Mae lletygarwch a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill (ac eithrio'r Cyngor hwn) yn cael ei ystyried fel lletygarwch gan drydydd parti ac felly dylid datgan yn y Gofrestr unrhyw letygarwch y byddwch yn ei dderbyn sydd yn uwch na'r trothwy. Mae hyn yn cynnwys lletygarwch a ddarperir i chi gan gyrff allanol y cawsoch chi eich penodi gan Gyngor Sir Ynys Môn i wasanaethu arnynt.

Ni ddylid ond derbyn lletygarwch pan fo rheswm dilys i hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y Cyngor Sir a / neu'r Ynys.

**Enghreifftiau:**

| **Rwyf wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal gan ddatblygwr / buddsoddwr posibl. A allaf fynd? Ai dyma'r math o 'letygarwch' y mae angen ei gofrestru o dan y Cod?** |
|---|
| Mae dyletswydd arnoch i fod mor wybodus â phosib ynghylch datblygiadau / buddsoddiadau posibl, yn enwedig o dan amgylchiadau lle mae eich ward yn cael ei heffeithio neu ble rydych chi'n cymryd rhan mewn penderfyniadau.<br><br>Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn y ffaith bod yn rhaid i chi, fel Aelod, weithredu bob amser er budd y cyhoedd, ac na ddylech gael eich dylanwadu, neu ymddangos fel petaech yn cael eich dylanwadu gan gynnig, posibilrwydd o gynnig, cymhelliant, gwobr ac ati gan ddatblygwr / buddsoddwr wrth gyflawni eich dyletswyddau.<br><br>Felly, byddai angen i chi gymryd gofal arbennig gyda'r cynnig hwn o letygarwch gan y trydydd parti, yn enwedig os oes gennych rôl benodol a allai ddylanwadu ar y |

canlyniad ar gyfer y trydydd parti hwnnw e.e. byddwch yn Aelod o bwyllgor sy'n gwneud penderfyniad sy'n effeithio ar fuddiannau’r datblygwr / buddsoddwr, yn enwedig y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

Yn gyntaf, gofynnwch i chi'ch hun a oes angen gwirioneddol i chi fynychu.

Yn ail, ystyriwch werth y lletygarwch a gynigir.

Os nad yw'r lletygarwch yn fwy na'r trothwy o £20 - nid oes rhaid i chi ei gofrestru - ond os ydych chi'n poeni sut y gellid camddehongli'r ffaith eich bod wedi ei dderbyn (yn enwedig gan mai datblygwr / buddsoddwr sy’n ei roddi), gallech wneud datganiad gwirfoddol er mwyn sicrhau tryloywder.

Os yw'r lletygarwch yn uwch na’r trothwy, gofynnwch i chi’ch hun a yw’r lletygarwch o fudd i'r Cyngor / Ynys ac a yw hynny'n gymesur â gwerth yr hyn sy'n cael ei gynnig. Os yw'r lletygarwch a gynigir yn ategol at ac yn gymesur â chynnal busnes, ac er budd gorau’r Cyngor / cyhoedd, mae’n debyg y byddai’n rhesymol derbyn y lletygarwch; ond mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod wedi'i ddatgan yn y gofrestr. **Mae’r hyn sy'n "gymesur" yn golygu taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau eich bod chi mor wybodus â phosib ynghylch y materion y byddwch yn penderfynu / dylanwadu arnynt, tra'n cynnal hyder y cyhoedd yn uniondeb y broses.**

Nid diben y Cod yw atal busnes rhag cael ei gynnal yn gyfreithlon, ond i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn dryloyw. Felly, os yw'r datblygwr yn dymuno darparu derbyniad ar gyfer yr Aelodau er mwyn amlinellu eu cynigion datblygu ac ateb cwestiynau, a bod lletygarwch yn cael ei ddarparu fel rhan o'r broses honno, yna mae lletygarwch o'r fath yn dderbyniol, hyd yn oed os yw'n werth mwy na'r trothwy, ar yr amod y caiff ei ddatgan yn y Gofrestr. Fodd bynnag, ni fyddai lletygarwch moethus gormodol, neu letygarwch sy'n anghymesur â’r busnes sydd i'w drafod, yn briodol, hyd yn oed os yw wedi'i gofrestru.

**Mae’r Cyngor ar hyn o bryd yn mynd trwy broses gaffael gystadleuol. Rwyf wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal gan gyflenwr, a fydd yn gwneud cais am y contract. A allaf fynd? Ai dyma'r math o 'letygarwch' y mae angen ei gofrestru o dan y Cod?**

Mae'n ofynnol i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn gyffredinol, yn hytrach na gweithredu er budd sefydliad neu unigolyn penodol. Byddai'n torri'r Cod Ymddygiad i roi mantais neu anfantais amhriodol i unrhyw gontractwr / cyflenwr.

O dan yr amgylchiadau, byddai'n ddoeth i chi gael cyngor y swyddogion sy'n arwain ar y broses gaffael cyn ymrwymo i gwrdd â chontractwr / cyflenwr. Mae'n hollbwysig bod

| |
|---|
| yr un cyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer pob darpar gyflenwr a dylech fod yn ymwybodol o unrhyw rôl sydd gennych fel ymgynghorai, ond nid mae’n debyg fel un sy’n gwneud penderfyniadau, yn y broses gaffael. |

| **Dydw i ddim yn siŵr sut i gyfrifo’r £20?** |
|---|
| Dylech amcangyfrif faint y byddai disgwyl i berson dalu am yr anrheg / lletygarwch cyfatebol ar sail fasnachol.<br><br>Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch y gwerth, yna byddai’n well i chi gofrestru'r lletygarwch. |

| **Rwyf wedi derbyn tocyn i gêm rygbi gan un o'm hetholwyr, sy'n chwaraewr rygbi proffesiynol, am helpu i sicrhau cyfleusterau chwaraeon yn lleol. Dwi'n fwy o gefnogwr pêl-droed felly rydw i'n mynd i roi’r tocyn i Aelod arall yn fy ward. Bydd hi'n cofnodi ei bod wedi derbyn y tocyn ar y Gofrestr felly ni fydd angen i mi wneud na fydd?** |
|---|
| Os nad ydych yn derbyn yr anrheg neu'r lletygarwch / neu’n dychwelyd y rhodd i’r sawl sy’n ei roddi, yna does dim rhaid i chi ei gofrestru.<br><br>Ond, yn yr amgylchiadau hyn, rydych chi wedi derbyn y gwahoddiad er eich bod wedi ei drosglwyddo i berson arall i'w ddefnyddio. Felly, bydd angen i chi ei gofrestru oherwydd yn dechnegol, chi sydd wedi ei dderbyn.<br><br>Bydd angen i'r Aelod arall, a fydd yn defnyddio'r tocyn, ddatgan ei bod wedi ei dderbyn oherwydd nid yw’r rhodd cael ei roddi gennych chi’n bersonol. |

| **Mae aelodau eraill yn fy ngrŵp wedi cael tocynnau am ddim i ddigwyddiad. Hoffwn i fynychu'r digwyddiad hwnnw. A allaf ofyn am docyn am ddim i mi fy hun?** |
|---|
| Gallai gofyn am docyn am ddim i chi eich hun fod gyfystyr â thorri paragraff 6 (1) (a) o'r Cod Ymddygiad sy'n datgan na ddylech ddefnyddio'ch swyddogaeth fel Aelod i sicrhau ar eich cyfer chi eich hun neu unrhyw berson arall, unrhyw fantais neu anfantais. |

Felly, ni ddylech byth ofyn am neu wahodd cynnig o anrheg neu letygarwch yn eich swyddogaeth fel Aelod.

Dylech hefyd ofalu eich bod yn osgoi rhoi arwydd i unrhyw un y gallech fod yn agored i gynigion o'r fath.

**Rwyf wedi cael cynnig aelodaeth campfa yn rhad ac am ddim mewn parc gwyliau lleol dros fisoedd y gaeaf (pan mae'n dawel arnynt). A allaf dderbyn y cynnig hwn?**

Yn gyntaf oll, ystyriwch a yw pobl leol eraill wedi cael cynnig yr un cymhelliant, neu a ydych chi wedi cael eich targedu / ai chi yw'r unig un (neu un o ychydig) a gafodd y cynnig oherwydd eich swyddogaeth fel aelod lleol.

Os cysylltwyd â chi o ganlyniad uniongyrchol i'ch rôl fel aelod lleol yn y ward, dylech wrthod y cynnig ar y sail bod yr anrheg yn cael ei gynnig i chi yn rhinwedd eich swydd fel aelod o'r Cyngor Sir a (gellir tybio, ar sail prisau aelodaeth campfeydd yn gyffredinol) bod y rhodd yn werth mwy na £ 20.

Os cafodd yr un cynnig ei wneud i eraill yn yr ardal leol, gallech dderbyn y cynnig. Ni fyddai angen i chi gofrestru'r rhodd gan nad yw'n cael ei gynnig i chi yn rhinwedd eich swydd fel aelod. Fodd bynnag, petai mater yn dod gerbron y Cyngor yn ddiweddarach sy'n ymwneud â'r parc gwyliau / y cwmni sy'n berchen arno neu'n ei reoli ac ati, byddai angen i chi sicrhau eich bod yn gwneud datganiad o ddiddordeb personol. Mae'ch diddordeb yn annhebygol o fod yn un sy'n rhagfarnu; fodd bynnag, byddai angen i chi ystyried y ffeithiau perthnasol a'r amgylchiadau penodol ar yr adeg honno.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Swyddog Monitro.**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Nodyn Briffio i Aelodau – Hawliau unigol fel aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar Nodyn Briffio Newydd arfaethedig i Aelodau ar eu hawliau unigol fel aelodau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

1.1 Mae'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn manylu ar y safonau ymddygiadol a ddisgwylir gan aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol fel cynghorwyr. Mae'r Côd, ynghyd â phrotocolau eraill, yn darparu arweiniad i aelodau am y modd y dylent fynd o gwmpas eu dyletswyddau fel aelodau o'r Cyngor.

1.2 Mae'r Côd Ymddygiad yn berthnasol i aelodau pan maent yn gweithredu'n swyddogol fel aelod, yn honni eu bod yn gweithredu fel aelod neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu fel aelod. Bydd Aelodau yn ddarostyngedig i'r Côd mewn cyd-destun ehangach os byddant yn dwyn anfri ar y swydd neu'n camddefnyddio eu statws i gael mantais iddynt eu hunain neu unrhyw un o'u cydnabod.

1.3 Fodd bynnag, rhaid cofio fod aelodau, fel eu hetholwyr, yn ddinasyddion yr ardal ac mae'n anorfod y bydd angen i aelodau ymarfer eu hawliau fel unigolion preifat mewn rhai sefyllfaoedd.

1.4 Mae'r Pwyllgor Safonau yn teimlo y gall fod rhywfaint o ddryswch mewn perthynas â'r sefyllfa pan mae aelodau angen cysylltu gyda'r Cyngor mewn capasiti preifat a diffyg dealltwriaeth o'r gwrthdaro sy'n codi yn sgil hynny gyda'u rôl swyddogol fel cynghorwyr.

1.5 Am y rheswm hwn, mae Nodyn Briffio Newydd (**Atodiad 1**) wedi cael ei baratoi gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau sy'n wynebu gwrthdaro rhwng eu diddordebau preifat a'u rôl fel cynghorwyr.

## 2. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor:

1.1 Yn nodi cynnwys y Nodyn Briffio Drafft yn **Atodiad 1** ac yn cadarnhau y dylid ei gymeradwyo;

1.2 Yn cytuno y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyflwyno'r Nodyn Briffio Drafft (**Atodiad 1)** i gyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau; ac

1.3 Yn cadarnhau y gellir cylchredeg y Nodyn Briffio yn **Atodiad 1** i'r holl Aelodau yn enw'r Pwyllgor Safonau.

# NODYN BRIFFIO I AELODAU – GWEITHREDU HAWLIAU FEL UNIGOLION MEWN PERTHYNAS Â GWASANAETHAU'R CYNGOR

## CEFNDIR

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn nodi manylion y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Mae'r Cod, ynghyd â phrotocolau eraill, yn rhoi arweiniad i Aelodau ar sut i gyflawni eu dyletswyddau.

2. Mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i aelodau pan fyddant yn gweithredu yn swyddogol fel aelod, yn honni eu bod yn gweithredu fel Aelod neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithredu fel Aelod. Bydd y Cod hefyd yn berthnasol i Aelodau mewn cyd-destun ehangach os byddant yn dwyn anfri ar y swydd neu'n camddefnyddio eu rôl er mwyn ennill mantais iddyn nhw eu hunain neu eu cydnabod. O dan y Cod, mae disgwyl i aelodau ddatgan diddordeb personol ac i beidio â chymryd rhan pan fydd ganddynt ddiddordeb personol neu ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Fe ddylai Aelodau gyfeirio at y Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu am fwy o wybodaeth).

3. Fodd bynnag, ni ddylid anghofio bod Aelodau, fel eu hetholwyr, hefyd yn ddinasyddion yn yr ardal ac mae'n anorfod y bydd angen i aelodau ymarfer eu hawliau fel unigolion preifat mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Gallai hyn fod am nifer o wahanol resymau megis wrth i'r Aelod (a) weithio fel contractwr yn darparu gwasanaethau i'r Cyngor, (b) gweithredu fel ysgrifennydd sefydliad gwirfoddol sy'n gwneud ceisiadau am grantiau, (c) trefnu darpariaeth gofal ar gyfer perthynas; neu (d) gwrthwynebu cais cynllunio i drws nesaf i'w gartref / i'w chartref.

4. Cynigir y Canllawiau canlynol gan y Pwyllgor Safonau i aelodau sy'n wynebu gwrthdaro rhwng eu diddordebau preifat a'u rôl fel aelodau etholedig, fel y disgrifir ym mharagraff 3 uchod. Darperir yr arweiniad fel cyngor cyffredinol yn unig ac nid yw'n cario'r un pwysau â'r Cod Ymddygiad. Atgoffir Aelodau mai mater iddyn nhw yw dod i gasgliad mewn perthynas ag unrhyw ddiddordebau sydd ganddynt.

## CANLLAWIAU

5. Os yn bosibl, fe ddylai Aelodau osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallai gwrthdaro godi rhwng eu bywydau personol a'u rôl fel aelod etholedig.

   Fe ddylai Aelodau ofyn iddyn nhw eu hunain: oes rhaid i mi wneud hyn? Allai rhywun arall wneud hyn ar fy rhan?

   Er enghraifft, os yw'r Aelod yn cynrychioli corff neu sefydliad arall, fe ddylai'r Aelod ofyn i rywun arall gyflawni'r rôl o ryngweithio â'r Cyngor Sir; neu os yw'r diddordeb personol yn ymwneud â chynrychioli aelod o'r teulu, fe ddylai'r Aelod ystyried a allai perthynas arall arwain yn ei le / yn ei lle.

6. Os na fedrirr osgoi'r ffaith y bydd Aelodau yn dod i gysylltiad â'r Cyngor yn eu capasiti personol, cynghorir Aelodau i ystyried y canllawiau canlynol:

   a. Wrth ysgrifennu at y Cyngor, ni ddylai Aelodau ddefnyddio papur swyddogol y Cyngor ac ni ddylent ddefnyddio eu cyfrif e-bost Cyngor, oherwydd byddai

hynny ynddo'i hun yn torri'r Cod ond byddai hefyd yn achosi dryswch o ran y rôl yr oedd yr aelod yn ymgymryd â hi; h.y. capasiti swyddogol neu breifat;

b. Wrth ysgrifennu at y Cyngor, ar y cyswllt cyntaf, fe ddylai aelodau ddatgan diddordeb ffurfiol a natur y diddordeb hwnnw a nodi ei fod o / hi yn gweithredu mewn capasiti preifat ac nid fel Aelod etholedig;

c. Os trafodir materion wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn, fe ddylai Aelodau gadarnhau manylion y drafodaeth honno yn ysgrifenedig ac fe ddylai'r cadarnhad ysgrifenedig hwnnw gyfeirio at y diddordeb, egluro natur y diddordeb a chadarnhau bod yr Aelod yn gweithredu mewn capasiti preifat;

d. Os yw'r Cyngor wedi cysylltu â'r Aelod yn ei rôl o/hi fel dinesydd o'r ardal (e.e. ymgynghoriad ar fater cynllunio), fe ddylai'r Aelod ddatgan ei ddiddordeb / ei diddordeb yn glir, ac egluro natur y diddordeb hwnnw wrth ymateb i'r ymgynghoriad;

e. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio eu rôl fel Aelodau etholedig i gael mynediad at swyddogion na gwybodaeth na fyddai wedi bod ar gael i aelodau eraill o'r cyhoedd yn yr un sefyllfa.

7. Er mwyn sicrhau priodoldeb a thryloywder, gallai'r Cyngor roi mesurau penodol yn eu lle er mwyn delio ag amgylchiadau penodol lle mae Aelodau yn ymgymryd â'u rôl mewn capasiti preifat; yn enwedig os rhagwelir y bydd y cyfnod rhyngweithio'n debygol o fod yn sylweddol. Rhaid i Aelodau gadw at unrhyw drefniadau rhesymol a wneir o dan amgylchiadau o'r fath.

8. Os nad yw Aelodau yn siŵr o'r hawliau sydd ganddynt o ran gweithredu fel unigolion, neu'r cyfyngiadau sydd arnynt o ran eu rôl fel Aelodau etholedig, maent yn cael eu hannog i gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor. Tra'n cydnabod yr angen am dryloywder ac er mwyn osgoi unrhyw awgrymiad o amhriodoldeb neu ddylanwad gormodol, mae hefyd yn bwysig bod gan Aelodau hawl i weithredu yn eu capasiti fel dinasyddion preifat.

**Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn**
**Gorffennaf 2018**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad ar Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2018** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**Tel: 01248 752586** |

## A FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

### 1. CEFNDIR

1.1 Cyfarfu Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru (sy'n cynnwys Powys a Cheredigion erbyn hyn) ar 29 Mehefin 2018. Mae copi o'r Rhaglen yn **Atodiad 1**.

1.2 Dilynodd y cyfarfod y Rhaglen a gyhoeddwyd. Cyhoeddir y cofnodion yn barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm; dyddiad i'w gadarnhau.

### 2. CYFARFOD Y FFORWM AR 29 MEHEFIN 2018

2.1 Rhoes swyddog o Gyngor Sir Gwynedd gyflwyniad ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae CLlLC wedi paratoi canllawiau drafft, Cyfryngau Cymdeithasol – Canllaw i Gynghorwyr; dosbarthwyd hwn i'r aelodau a gwahoddwyd cyfraniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Yn dilyn cyfarfod y Fforwm, derbyniwyd cadarnhad gan CLlLC fod y ddogfen, Cyfryngau Cymdeithasol – Canllaw i Aelodau, wedi cael ei chyhoeddi'n ffurfiol ar y wefan erbyn hyn. Rhannwyd y ddolen i'r Canllawiau gydag Aelodau (etholedig a chyfetholedig) y Cyngor hwn a gyda Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar 21 Awst 2018.

2.2 Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi codi pedwar mater er trafodaeth.

2.2.1 Mewn perthynas ag eitem 5(B) ar y Rhaglen, roedd yn ddiddorol nodi bod Awdurdodau eraill yn dilyn gweithdrefn wahanol yn hytrach na chynnal pleidlais yn unig. Ar ôl i'r enwau gael eu henwebu, byddai'r ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gyfweliad a phenderfyniad yn cael ei wneud ar sail hynny. Mae'n bosib fod hon yn drefn sy'n mynd â llai o amser na'r broses a ddilynwyd gan CSYM yn 2017 a oedd yn golygu gofyn am enwebiadau, ac yna, ar ôl llunio rhestr, gwahodd y Cynghorau Tref a Chymuned i bleidleisio dros un enw.

2.2.2 Mewn perthynas ag eitemau 5(C) ar y Rhaglen, roedd yn ddiddorol nodi mai'r Swyddog Monitro, nid aelodau'r Pwyllgor Safonau, sy'n gyfrifol am y Protocol Datrysiad Lleol mewn nifer o Awdurdodau eraill.

2.2.3 Mewn perthynas â 5(Ch) ar y Rhaglen, roedd aelodau'r Fforwm yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol petai Swyddog Monitro CSYM yn gallu rhannu deunyddiau dysgu (sleidiau cyflwyniad) o'r cwrs a fynychodd gyda David Richards gyda'r Swyddogion Monitro eraill cyn dod i benderfyniad ynglŷn ag a yw aelodau'r Fforwm yn dymuno i hyfforddiant gael ei drefnu ai peidio.

2.3 Unrhyw Fater Arall – derbyniwyd Canllawiau drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ychydig cyn y cyfarfod. Rhannwyd copïau gyda'r aelodau oedd yn bresennol yn y Fforwm. Ystyriwyd mai'r Canllawiau hyn gan swyddfa'r Ombwdsmon oedd ei ymateb i'r pryderon a godwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y Fforwm ym mis Tachwedd 2017 mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn aelodau.

2.4 Penderfynwyd y dylai pob Pwyllgor Safonau ystyried eitemau i'w cynnwys ar Raglen cyfarfod nesaf y Fforwm.

**3. LLYTHYR DRAFFT**

3.1 Mae **Atodiad 2** yn lythyr drafft i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a baratowyd yn dilyn cyfarfod y Fforwm ar 24 Tachwedd 2017.

## B CYNHADLEDD PWYLLGORAU SAFONAU 2018

1. Cynhelir y Gynhadledd Pwyllgorau Safonau ar 14 Medi 2018 yn Aberystwyth, Ceredigion. Bydd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol yn mynychu ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Amgaeir manylion am y siaradwyr yn **Atodiad 3**.

2. Cyflwynir diweddariad ffurfiol yn dilyn y Gynhadledd i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019.

## C ARGYMHELLIAD

1. Fod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn:

1.1 Nodi cynnwys y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Fforwm ar 29 Mehefin 2018;

1.2 Cyflwyno eitemau i'r Cadeirydd er mwyn eu cynnwys ar Raglen cyfarfod nesaf y Fforwm;

1.3 Nodi dyddiad y Gynhadledd Pwyllgorau Safonau ar 14 Medi 2018, ac i'r aelodau rannu unrhyw gwestiynau y maent yn dymuno i'r Cadeirydd / Is-gadeirydd eu codi ar eu rhan gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei sesiwn agored cyn diwedd Cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 12 Mai 2018; a

1.4 Penderfynu a fyddai'n ddefnyddiol trefnu sesiwn ddatblygu/hyfforddi anffurfiol mor fuan â phosib yn dilyn y Gynhadledd Pwyllgorau Safonau, a chyn Nadolig 2018, er mwyn caniatáu i'r Cadeirydd / Is-gadeirydd ddarparu adborth o'r Gynhadledd i aelodau eraill y Pwyllgor Safonau.

ATODIAD 1

Rhaglen Gyflawn

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

**Dydd Gwener, 29 Mehefin 2018 am 10.00 y.b.**

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH**

**At y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Swyddog Monitro:-**

**Pwyllgor Safonau Ynys Môn**

**Pwyllgor Safonau Ceredigion**

**Pwyllgor Safonau Conwy**

**Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych**

**Pwyllgor Safonau Sir y Fflint**

**Pwyllgor Safonau Gwynedd**

**Pwyllgor Safonau Powys**

**Pwyllgor Safonau Wrecsam**

**Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**Pwyllgor Safonau Awdurdod Tan ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru**

**Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri**

# RHAGLEN

1. **<u>PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD</u>**

   Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

   (D.S Mae'r fforwm wedi penderfynu eisoes y bydd ei gyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan yr awdurdod lletya.)

2. **<u>YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB</u>**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 TACHWEDD 2017</u>**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y Fforwm a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

   *(Tudalennau 4 - 7)*

4. **<u>ARFERION / PROTOCOLAU AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL A'R ADOLYGIAD O ARWEINIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU</u>**

   (a) Derbyn cyflwyniad ar gyfryngau cymdeithasol.

   (b) Trafod arferion / protocolau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu gweithredu gan y gwahanol awdurdodau a gwahodd cyfraniadau i'r adolygiad o arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5. **<u>CWESTIYNAU A GODWYD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MON</u>**

   (A) Yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol uno, sut mae'r Fforwm yn rhagweld y bydd y Pwyllgorau Safonau yn gweithio yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned? Er enghraifft, petai Ynys Môn a Gwynedd yn uno, fel sy'n cael ei gynnig, byddai yna dros 100 o Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer un Pwyllgor Safonau – oes angen lleihau'r nifer o Gynghorau Cymuned a Thref?

   (B) 'Roedd y broses ddiweddar o ddewis cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned i eistedd ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn ymddangos yn un feichus. Sut mae Pwyllgorau Safonau eraill yn cynnal y broses hon?

(C) Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Protocol Datrys Lleol diwygiedig yn ddiweddar sy'n seiliedig ar broses wirfoddol o gyflafareddu rhwng y Cynghorwyr ac aelodau'r Pwyllgor Safonau. Os yw'r ddwy ochr yn cytuno i'r broses, rhaid i'r Cynghorwyr ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain a bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Safonau yn bresennol fel canolwr yn unig. Er mwyn cynnal y drefn yn effeithiol, mae trefniadau mewn llaw i aelodau'r Pwyllgorau Safonau dderbyn hyfforddiant cyflafareddu. Ydi'r Pwyllgorau Safonau eraill wedi trefnu hyfforddiant o'r fath? Oes yna arferion da / pwyntiau dysgu i'w rhannu ymysg aelodau'r Fforwm?

(CH) Byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon trefnu i David Richards, Cyfarwyddwr LLC, ddod i gyfarfod o'r Fforwm hwn yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar faterion llywodraethu cyffredinol. Ydi hyn yn rhywbeth fyddai o gymorth i aelodau'r Fforwm?

**6. UNRHYW FATER ARALL**

Ystyried unrhyw fater arall.

**7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Pennu dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

**COFNODION CYFARFOD O'R FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF, WRECSAM AR DYDD GWENER, 24 TACHWEDD 2017**

**YN BRESENNOL**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Michael Pugh, Neil Benson, Claire Blanchard and I David Bithell, MBE
Cyngor Sir Ceredigion – Eddie Ffoulkes-Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Iain Moore
Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger
Cyngor Sir y Fflint – Robert Dewey
Cyngor Sir Ynys Môn – Mike Wilson, Islwyn Jones and Anwen Jones
Cyngor Sir Powys – Debby Jones
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Sharon Warnes

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Dirpwy Swyddog Monitro – Sioned Wyn Davies
Gweinyddwr Pwyllgorau – Jane Johnson

**1 PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Penodwyd Michael Pugh, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Gadeirydd, yn unol â phenderfyniad y Fforwm ym mis Hydref 2016 mai'r awdurdod sy'n cynnal y Fforwm fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Jones (Parc Cenedlaethol Eryri), Helen Rhydderch Roberts (Powys) a Steve Cripps (Ceredigion).

**3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 EBRILL 2017**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017.
Cywiriadau -
Diwygio sillafiad John Roberts a Sharon Warnes.
Ymddiheuriadau – ychwanegu Robert Dewey.

**PENDERFYNWYD –yn amodol ar y cywiriadau uchod, y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.**

## 4 CYFARFOD SEFYDLU A HYFFORDDIANT MATERION MOESEGOL AR GYFER AELODAU NEWYDD

Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro y rhoddwyd yr eitem hon ar y Rhaglen er mwyn galluogi'r aelodau oedd yn bresennol i roi adborth ar gyflwyniad yr hyfforddiant o fewn Cynghorau Sir, a hefyd ar sut y cyflwynwyd yr hyfforddiant fesul cam i'r Cynghorau Cymuned.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhai'n seilio'r hyfforddiant ar y deunyddiau a gafwyd gan CLILC, ac eraill yn cynhyrchu eu deunyddiau eu hunain.
- Roedd hyd y sesiynau'n amrywio, ond teimlwyd bod sesiynau rhyngweithiol byrrach, gyda mwy o ffocws, yn cynnal diddordeb y mynychwyr.
- Sesiynau ar wahân ar gyfer Cynghorwyr newydd, mwy trylwyr, a sesiynau diweddaru ar gyfer Cynghorwyr oedd yn dychwelyd.
- Lleoliadau – roedd rhai'n cael eu cynnal mewn un lleoliad ac eraill mewn gwahanol leoliadau.
- Cynghorau Cymuned – bu'n fuddiol mynd â'r hyfforddiant allan i'r Cymunedau mewn rhai ardaloedd, ac mewn un awdurdod, roedd y Pwyllgor Safonau wedi trefnu ymweliadau â Chynghorau Cymuned.
- Cafwyd problemau gyda hyfforddiant ar-lein mewn rhai ardaloedd oherwydd cysylltiad band eang gwael.

## 5 CLILC - 5 MLYNEDD I WNEUD GWAHANIAETH

Cafwyd adborth gan Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, ar ddigwyddiad rhanbarthol diweddar o'r enw '5 Mlynedd i Wneud Gwahaniaeth' a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar gyfer Cynghorwyr newydd.

Dyma'r cyflwyniadau a gafwyd ar y diwrnod:

Mark Drakeford, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Yr hyn sydd i ddod: Neges i gynghorwyr newydd gan Lywodraeth Cymru.

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – 5 mlynedd yn y swydd ond etifeddiaeth am oes.

Steve Thomas CBE, Prif Weithredwr CLILC – Cyflwr y Genedl: 5 Mlynedd o Heriau a Newidiadau i Gynghorau?

Ian Bottrill, Cyn Arweinydd Cyngor, ymchwilydd a hyfforddwr cenedlaethol – Cyfrinachau llwyddiant: Beth sy'n gweithio i gynghorwyr?

Mel Doel, cyn newyddiadurwr BBC Wales, hyfforddwr cenedlaethol a chadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 2016-17 – Y Cyfryngau Cymdeithasol: Ffrind neu Elyn?

Dywedodd Michael Wilson ei fod yn siomedig iawn gweld cyn lleied o gynghorwyr newydd yn bresennol yn y digwyddiad.

Aeth y Fforwm ati wedyn i drafod yr hyn yr oedd pob Cyngor yn ei ystyried yn hyfforddiant craidd/hanfodol ar gyfer Cynghorwyr a sut mae presenoldeb Aelodau mewn sesiynau hyfforddi'n cael ei gofnodi/ei fonitro.

Mewn perthynas â'r hyfforddiant Cod Ymddygiad, roedd disgwyl i bob Cynghorydd fynychu gan mai'r cwestiwn cyntaf y byddai'r Ombwdsmon yn ei ofyn wrth gynnal ymchwiliad yn erbyn Aelod mewn perthynas â thorri'r Cod, fyddai p'un a oedd yr Aelod wedi mynychu hyfforddiant ai peidio, a phryd y cynigiwyd yr hyfforddiant.

Pwysleisiwyd yr angen i bob Cynghorydd fynychu hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol.

6 **<u>GWEITHDREFNAU I FYND I'R AFAEL Â HONIADAU YN ERBYN AELODAU</u>**

Roedd Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn, wedi gofyn am gael cynnwys yr eitem hon ar y Rhaglen er mwyn trafod pa weithdrefnau sydd gan y Cynghorau i fynd i'r afael â honiadau o Aflonyddu Rhywiol yn erbyn Aelodau gan swyddogion, ac er mwyn cael gwybodaeth am lefel y gefnogaeth a ddarperir i'r dioddefwyr a'r tramgwyddwyr.

Cyfeiriwyd at amryw o brotocolau Aelodau/swyddogion a'r Cod Ymddygiad, ond teimlwyd y dylid ceisio eglurhad/arweiniad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r canlynol, pe bai cwyn o natur ddifrifol yn cael ei gwneud yn erbyn Aelod, e.e. o Aflonyddu Rhywiol ar un o swyddogion y Cyngor. Roedd hyn wedi'i seilio ar y dybiaeth nad oedd yn fater i'r Heddlu.

- Pa bwerau sydd gan yr Ombwdsmon i weithredu pe bai cwyn o'r fath yn cael ei gwneud?
- Deallwyd y gall Panel Dyfarnu Cymru wahardd yr unigolyn dros dro ar sail adroddiad interim ac argymhelliad yr Ombwdsmon.
  Beth oedd y raddfa amser ddisgwyliedig ar gyfer cymryd camau o'r fath?
- A ellid darparu canllawiau ar y trefniadau ymarferol ar gyfer Aelodau a gyhuddir o ymddygiad o'r fath, o ystyried eu statws etholedig mewn perthynas â'r canlynol:
  i) atal yr Aelod rhag cynrychioli eu hetholaeth
  ii) cyflawni eu dyletswyddau arferol yn y Cyngor
  iii) mynychu eiddo'r Cyngor
  iv) gwrthdaro a allai godi o ran dyletswydd gofal y Cyngor tuag at ei swyddogion
  v) a ddylid cynnig gofal bugeiliol i'r Aelod fel y byddai'n cael ei gynnig i swyddogion o dan ddyletswydd gofal?
- Canllawiau mewn perthynas â chwyn yn erbyn Aelod Gweithredol yn hytrach nag Aelod arferol, ac yn arbennig, cylch gwaith y canlynol i weithredu neu beidio yn y sefyllfa hon
  Arweinydd y Cyngor
  Swyddog Monitro
  Pwyllgor Safonau
  Arweinwyr Grwpiau

**PENDERFYNWYD – Gofyn i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn ddrafftio llythyr i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod i'w gyflwyno os ydynt yn dymuno gwneud hynny.**

7 **UNRHYW FATER ARALL**

Cyngor Sir Ceredigion fydd yn cynnal Cynhadledd Safonau Cymru 2018 yn Aberystwyth ar ddyddiad i'w drefnu ym mis Medi.

Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach ar gael am yr hyfforddiant cyfryngu.

Codwyd y cynnig i lunio Cydbwyllgor Safonau, yn enwedig gan fod rhai awdurdodau'n cael trafferth recriwtio aelodau annibynnol i Bwyllgorau Safonau yn ogystal â phenodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Penodi. Nid oedd yn ymddangos fel pe bai llawer o awydd i lunio Cydbwyllgorau, ac awgrymwyd y gallai cyn Gadeiryddion/aelodau annibynnol wedi ymddeol o Bwyllgorau Safonau lunio cronfa o ymgeiswyr posibl i weithredu fel aelodau lleyg ar Bwyllgorau Penodi.

8 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mai/Mehefin 2018 gan Gyngor Sir Gwynedd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.**

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) / SWYDDOG MONITRO**
**HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) / MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MON /**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir / Council Offices**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn / Anglesey**
**LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGEFNI**

**ffôn / tel: (01248) 75**
**ffacs / fax: (01248) 752132**
**E-Bost – E-mail:** mwycs@ynysmon.gov.uk

**Ein Cyf – Our Ref.** MY/DH/CC-019486-MY
**Eich Cyf – Your Ref.**

DRAFT

DYDDIAD

Annwyl Katrin

Anfonir y llythyr hwn atoch ar ran Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru (sydd bellach yn cynnwys ardaloedd Ceredigion a Phowys).

Cawsom gyfarfod o'r Fforwm ar 27 Tachwedd yn Wrecsam ac un o'r pynciau a drafodwyd oedd yr hyn y gallai, neu y dylai Awdurdod Lleol ei wneud petaent yn derbyn cwynion o natur ddifrifol yn erbyn Aelod, e.e. aflonyddu'n rhywiol ar swyddog/aelod o staff yn y Cyngor – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth nad yw'n fater i'r Heddlu.

Cytunodd y Fforwm y dylent anfon llythyr at SOGC yn mofyn esboniad ac arweiniad ar nifer o faterion, sef:-

1. Pa bwerau sydd gan yr Ombwdsmon i weithredu os derbynnir cwyn ddifrifol megis yr un uchod?

Dear Katrin,

This letter is sent to you on behalf of the North Wales Standards Committee Forum (which also now includes Ceredigion and Powys areas)

We had a meeting of the Forum on the 27th November in Wrexham and one of the Topics discussed was the issue of what Local Authorities could or should do in the event that a Complaint of a serious nature being made against a Member e.g. of Sexual Harassment of an Officer/ member of staff at the Council- based on the assumption that it is not a Police matter.

The Forum agreed that a letter should be sent by them to the PSOW's office to seek clarification and guidance on a number of matters, these being:-

1. What powers the Ombudsman has to act if a serious complaint such as the above is received?

2. Rydym yn deall y gall Panel Dyfarnu Cymru wahardd aelod yn seiliedig ar adroddiad interim ac argymhelliad gan yr Ombwdsmon. Beth yw'r amserlen a ragwelir o ran cymryd camau o'r fath?

2. We understand that a suspension can be imposed by the Adjudication Panel for Wales based on an interim report and recommendation from the Ombudsman. What are the anticipated timescales for such action to be taken?

3. Pa ganllawiau fedr ef eu darparu ar drefniadau ymarferol yn achos Aelodau sydd wedi eu cyhuddo o ymddygiad o'r fath yn wyneb eu statws etholedig, e.e.

3. What guidance could he provide on practical arrangements for Members accused of such Conduct given their elected status e.g.

a) rydym yn tybio na fedrai'r Cyngor atal Aelod rhag cynrychioli eu hetholwyr

a) we presume that the Council could not prevent Members from representing their electorate

b) cyflawni eu dyletswyddau Cyngor arferol

b) carrying out their normal Council duties

c) o ran y gwrthdaro posibl a allai godi rhwng dyletswydd gofal yr Awdurdod Lleol tuag at swyddogion a thuag at unrhyw Aelodau y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw

c) as regards the potential conflict which may arise between the Local Authority's duties of care to officers and any to Members in relation to the complaint

d) dod i adeiladau'r Cyngor.

d) attending Council premises

e) a ddylai'r Cyngor fod yn cynnig rhyw fath o ofal bugeiliol i Aelodau, e.e. Cwnsela Cyfrinachol yr un modd ag y byddent yn ei wneud i swyddogion yn unol â'r ddyletswydd gofal?

e) should the Council be offering some sort of pastoral care for Members e.g. Confidential Counselling? As they would for officers under a duty of care?

4. Pa arweiniad fedr yr Ombwdsmon ei roddi ynghylch cwyn yn erbyn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn hytrach nag Aelod cyffredin.

A fedr roi rhyw arweiniad ar gyfer:-

Arweinydd y Cyngor

Swyddog Monitro

Pwyllgor Safonau

4. What guidance could the Ombudsman provide on a complaint against an Executive Member rather than an ordinary Member.

Would he be able provide some guidance to be taken by:-

the Leader of the Council

Monitoring Officer

DRAFT

Arweinyddion Grwpiau

O ran eu cylch gorchwyl i weithredu neu beidio yn y sefyllfa hon.

Standards Committee

Group Leaders

As to their remit to act or otherwise in this situation.

Ar ôl cyfarfod y Fforwm, rydym yn deall y cynhaliwyd cyfarfod wedyn ar gyfer Cyfreithwyr Llywodraeth Leol yn Llandrindod ar 1 Rhagfyr a'ch bod chi, Swyddogion Monitro o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi mynychu'r cyfarfod hwnnw.

After the Forum meeting we understand that there was a subsequent Lawyers in Local Government meeting in Llandrindod Wells on the 1st December which was attended by yourself, Monitoring Officers from Local Authorities across Wales and a representative from the WLGA.

Un o'r pynciau ar y Rhaglen oedd y senario uchod.

One of the topics on the Agenda was the above scenario.

Rydym ar ddeall eich bod wedi cytuno i fynd â'r mater yn ôl a'i drafod gyda'r Ombwdsmon ac o bosib, i baratoi rhyw fath o ganllawiau ar y mater hwn.

We understand that you agreed to take the matter back and discuss it with the Ombudsman and to possibly prepare some guidance regarding this matter.

Os bydd canllawiau'n cael eu drafftio, a fyddai modd i eraill wneud sylwadau ar y drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi'n derfynol?

If guidance is to be drafted would it be possible for others to comment on the draft before it is finalised?

Hefyd, beth ydych chi'n dybio fydd yr amserlen ar gyfer paratoi'r canllawiau hyn?

Also what do you estimate the timescale for preparing this guidance?

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

We look forward to hearing from you

Yn gywir

Yours sincerely

DRAFT

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Nodwch y bydd yr Uned Gyfreithiol a Chwiliadau Tir ond ar gael i dderbyn galwadau ffôn rhwng 10 y bore a hanner dydd a dau a pedwar yn y pnawn o hyn ymlaen. Os oes mater gwirioneddol frys y tu allan i'r oriau yma dylwch anfon e-bost i'r unigolyn gan gynnwys "BRYS" yn y llinell destun.

Note that the Legal and Land Charges Section will only answer phone calls between 10am and noon and 2 and 4 pm from now on. If a matter is truly urgent outside of these hours

then send an email to the individual containing the word “URGENT” in the subject line.

DRAFT

ATODIAD 3

# Cynhadledd Safonau Cymru 2018

## Prif Siaradwr:

## Nick Bennett,

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Claire Sharp,**

Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru

**Eifion Evans,**

Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion

Ystafell Cynadledda Medrus,
Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion,
SY23 3BY

Dydd Gwener, 14 Medi, 2018
Cofrestru am 9:15 y.b.

GOLUD·GWLAD·RHYDDID
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Powys

£70 + TAW
Cysylltwch:
CynhadleddSafonauCymru2018@ceredigion.gov.uk
01545 574177

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **12.09.2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers 14 Mawrth 2018** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Cyngor y Busnes) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol o dan y côd ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r côd ymddygiad yn ymgorfforі "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 12(2) y côd.

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Côd o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

## 2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo hynny'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn o Gyngor ac Arweiniad. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glercod cynghorau tref a chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6 Mawrth 2017.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posibl, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS 14 MAWRTH 2018

Gwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 29 Mehefin 2018

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau, derbyniwyd tri chais am ganiatâd arbennig. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud â'r un mater mewn un Cyngor Tref. Galwyd y Panel yn ffurfiol ar 25 Mehefin 2018, derbyniwyd cais ysgrifenedig llawn ar 28 Mehefin 2018 a chafodd ei gylchredeg ar y dyddiad hwnnw, a bu i'r Panel gyfarfod ar 29 Mehefin 2018 i wrando ar achos yr ymgeiswyr ac i benderfynu ar y ceisiadau.

Roedd rhaid i'r Panel Caniatâd Arbennig ystyried tri chais am Ganiatâd Arbennig gan dri aelod o Gyngor Tref Biwmares mewn perthynas ag un mater.

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn y Gwrandawiad ar 29 Mehefin 2018 ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Mae cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig ynghlwm yn **Atodiad 2**.

O dan yr amgylchiadau, penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig cyfyngedig yn galluogi dau o'r ymgeiswyr (y Cynghorydd Jason Zalot a'r Cynghorydd Stan Zalot) i:-

- Ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor/Cyngor Tref] mewn perthynas â'r mater;
- Siarad â swyddogion y Cyngor Tref am y mater;
- Siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor/Cyngor Tref ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater; ac
- Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater.

Nid yw'r caniatâd arbennig yn rhoi'r hawl i bleidleisio o dan unrhyw amgylchiadau os yw'r diddordeb sy'n rhagfarnu yn bodoli.

Mewn perthynas â'r trydydd cais, a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Howard Mattocks, penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig digyfyngiad yn unol â'r telerau canlynol:

- Ysgrifennu at swyddogion [a/neu y Pwyllgor/Cyngor Tref] mewn perthynas â'r mater;
- Siarad â swyddogion y Cyngor Tref am y mater;
- Siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor/Cyngor Tref ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;
- Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater; a
- Pleidleisio.

Rhoddwyd y caniatâd arbennig ar y sail ganlynol:-

(d) Mae natur y diddordeb yn golygu na fyddai cyfranogi i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag o yn andwyol i hyder y cyhoedd;

(e) mae diddordeb y Cynghorydd yn gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd; a
(f) mae cyfranogiad i'r busnes yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol y Cynghorydd.

Bydd y caniatâd arbennig (os yw'n parhau i fod yn berthnasol) yn dod i ben pa un bynnag pan ddaw cyfnod presennol pob Cynghorydd perthnasol ar Gyngor Tref Biwmares i ben.

Roedd y gwahaniaeth yn y Caniatâd Arbennig a roddwyd i'r Cynghorwyr yn seiliedig ar y ffaith fod diddordebau sy'n rhagfarnu y Cynghorwyr Jason Zalot a Stan Zalot yn cynnwys elfen ariannol / fasnachol. Roedd diddordeb sy'n rhagfarnu y Cynghorydd Mattocks yn fater o lesiant yn hytrach nag yn ymwneud â masnach.

## 4. NODYN CYFARWYDDYD

Cynhyrchwyd Nodyn Cyfarwyddyd i aelodau'r Pwyllgor Safonau ei ddefnyddio pan fyddant yn eistedd ar Banel sy'n ystyried cais am ganiatâd arbennig. Cynhwysir copi o'r nodyn cyfarwyddyd hwnnw yn **Atodiad 3**. Y bwriad yw sicrhau fod yr holl aelodau'n glynu at yr un weithdrefn ac ystyriaethau wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd arbennig fydd, o ganlyniad, yn sicrhau y dilynir proses deg a chyson. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys **Atodiad 3** a chadarnhau ei fod yn cael ei fabwysiadu fel ag y cafodd ei ddrafftio.

Er mwyn i Aelodau ddeall y weithdrefn a ddilynir gan Banel y Pwyllgor Safonau fydd yn ystyried ei gais o/hi am ganiatâd arbennig, awgrymir fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r ddogfen mewn cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau.

## 5. ARGYMHELLIAD

1. Fod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd ynghyd â'r sail a'r amgylchiadau dros roi'r caniatâd arbennig.

2. Fod aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Islwyn Jones a Keith Roberts) yn cadarnhau/cywiro'r cofnodion drafft yn **Atodiad 2**.

3. Fod y Pwyllgor Safonau yn mabwysiadu'r Nodyn Cyfarwyddyd yn **Atodiad 3**.

4. Fod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r Nodyn Cyfarwyddyd yn **Atodiad 3** i gyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau.

ATODIAD 1

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PANEL CANIATÂD ARBENNIG (O'R PWYLLGOR SAFONAU)** | | **DISPENSATION PANEL (OF THE STANDARDS COMMITTEE)** |
| **DYDD GWENER, 29 MEHEFIN 2018 am 2.00 o'r gloch** | | **FRIDAY, 29 JUNE 2018 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mr. Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)

